# Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni

2024-2025

# Adroddiad Blynyddol Y Llywodraethwyr i Rieni 2024/2025

## Adroddiad y Llywodraethwyr

***Heb Ddysg Heb Ddeall***

Annwyl Rhiant neu Warcheidwad,

Braint a phleser yw eich cyfarch fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, a hynny am y tro olaf, wrth gyflwyno i'ch sylw caredig, yr adroddiad hwn o weithgaredd yr ysgol am y flwyddyn a aeth heibio.

Bu'r flwyddyn a aeth heibio yn un llawn prysurdeb a gweithgarwch boed yn yr ystafell ddosbarth, ar y caeau chwaraeon ac yn y gymuned.

Hoffwn ddiolch o waelod calon i bob aelod o staff am eu hymroddiad llwyr i bob agwedd o fywyd yr ysgol. Heb eu gwaith diflino hwy fe fyddai bywyd academaidd ac allgyrsiol y disgyblion dipyn tlotach. Rwy'n siŵr y cytunwch i'r disgyblion dderbyn yr addysg orau bosib ynghyd â gofal bugeiliol gofalus iawn. Mae'r adroddiad hwn yn dyst o hwn.

Diolch arbennig i'r Pennaeth a'r uwch dîm arwain am lywio'r ysgol drwy flwyddyn arall. Nid yw'n fater hawdd i gydbwyso'r safonau dysgu uchel sydd yn yr ysgol a'r pwysau sydd ar gyllidebau ac ar amser ac adnoddau staff.

Diolch hefyd i staff gweinyddol a gofalwyr yr ysgol am eu gwaith trylwyr gyda threfniadau'r ysgol, yr adeiladau a thir yr ysgol. Maent holl yn cyfrannu at gadw eich plentyn/plant yn ddiogel.

Yn ogystal â chanmol y staff, rhaid canmol y disgyblion hefyd am eu llwyddiannau amrywiol, ac am ymateb mor gadarnhaol i'r holl gyfleodd sy'n cael eu cynnig iddynt.

Mae'n hyfryd ar ran y corff llwyodraethol i ddiolch i chi, rieni a gwarcheidwaid am eich cefnogaeth i'r bobl ifanc ac i'r ysgol. Mae eich parodrwydd i gefnogi a chydweithio gyda'r ysgol a'u staff yn gosod y seiliau addysgol orau posibl ar eu cyfer i dyfu'n dinasyddion boneddigaidd ac aeddfed

Rydym yn ffodus iawn o gefnogaeth y Gymdeithas Rhieni. Mae eu gwaith yn allweddol i'r ysgol a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu gwaith.

Yn fy mlwyddyn olaf fel Cadeirydd ac fel aelod o'r corff llywodraethol hoffem ddiolch hefyd i'm cyd-lywodraethwyr am eu cyfraniad amhrisiadwy i fywyd yr ysgol. Diolch am eu ffyddlondeb i'r cyfarfodydd a'u hymweliadau mynych i'r ysgol.

Mae pob llywodraethwr yn ei hystyried hi'n fraint o gael bod yn rhan o deulu Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ac yn ymfalchïo yn ei holl lwyddiannau.

Dymunwn yn dda i'r staff a'r disgyblion gyda'r addewid i fod yn gefn iddynt bob amser.

Yn gywir

***Ms Catrin James,***
***Cadeirydd y Corff Llywodraethol***

## Adroddiad Y Pennaeth

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Mae'n bleser cael ysgrifennu yr adroddiad hwn ar eich cyfer chi fel rhieni a gofalwyr er mwyn rhannu â chi rai o lwyddiannau niferus ein disgyblion, staff a chymuned ehangach yr ysgol. Bu'n flwyddyn wirioneddol werth chweil, yn llawn gwaith caled, penderfyniad ac ymdeimlad cryf o falchder yn y cyfan a wnawn gyda'n gilydd.

Unwaith eto eleni, rydym wedi gweld canlyniadau academaidd rhagorol, gan osod ein hysgol yn y drydedd safle yng Nghymru — camp wych sy'n adlewyrchu ymroddiad ein disgyblion a'n staff. Mae ein dysgwyr wedi dangos cynnydd nodedig ym mhob maes, ac mae eu brwdfrydedd dros ddysgu yn parhau yn amlwg ym mhob ystafell ddosbarth.

Y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, rydym wedi dathlu nifer o lwyddiannau ym myd chwaraeon, cerddoriaeth a'r celfyddydau. Mae ein timau chwaraeon wedi perfformio'n wych mewn cystadlaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan ddangos gwaith tîm a gwydnwch. Mae ein corau hefyd yn parhau i fod yn ffynhonnell o falchder enfawr wrth berfformio mewn digwyddiadau cymunedol a chenedlaethol gan gynrychioli'r ysgol gyda rhagoriaeth.

Rydym hefyd yn falch iawn o'r modd y mae ein disgyblion wedi dangos caredigrwydd a chydymdeimlad drwy'r flwyddyn. Trwy ei gwaith caled, rydym wedi codi swm sylweddol o arian ar gyfer amrywiaeth o achosion da, gan gynnwys elusennau lleol a chenedlaethol. Mae'n galonogol gweld ysbryd cymunedol ac ymdeimlad o gyfrifoldeb byd-eang mor gryf ymhlith ein disgyblion.

Eleni, mae ein disgyblion hefyd wedi cael amrywiaeth gyfoethog o gyfleoedd cyffrous, cystadlaethau ac ymweliadau. O ymweliadau addysgol a phrofiadau preswyl i brosiectau creadigol a digwyddiadau cymunedol, mae'r plant wedi manteisio ar bob cyfle gyda brwdfrydedd ac aeddfedrwydd. Nid yn unig mae'r profiadau hyn wedi cyfoethogi eu dysgu, ond maent hefyd wedi eu helpu i ddatblygu hyder, annibyniaeth a dealltwriaeth ddyfnach o'r byd o'u cwmpas.

Ni fyddai dim o hyn yn bosibl heb ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein staff, sy'n mynd gam ymhellach bob amser i sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni'r gorau ohono'i hun. Maent yn sylfaenol i bob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Hoffwn hefyd estyn fy niolch diffuant i'n llywodraethwyr ysgol, sy'n rhoi o'u hamser, eu harbenigedd a'u cefnogaeth i sicrhau cyfeiriad strategol cadarn i'r ysgol. Mae eu hymroddiad yn amhrisiadwy ac yn cyfrannu'n fawr at ein llwyddiant parhaus.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn am y berthynas gref sydd rhyngom ni a chithau fel rhieni a gofalwyr. Mae eich cefnogaeth barhaus, eich anogaeth a'ch cyfraniad yn chwarae rhan hanfodol yn ein llwyddiant. Wrth weithio gyda'n gilydd, rydym yn creu cymuned lle mae pob plentyn yn teimlo'n werthfawr, yn cael ei gefnogi ac yn cael ei ysbrydoli i anelu'n uchel.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod, gwnawn hynny gyda hyder ac optimistiaeth am y cyfleoedd sydd o'n blaenau. Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus — mae wir yn gwneud gwahaniaeth.

Gyda dymuniadau gorau

***Dr Llinos Jones***
***Pennaeth***

## Cynnydd ar argymhellion Estyn yn Adroddiad Arolygu 2022

***A1. Sicrhau bod arweinwyr yn ailymgymryd ag ystod eang o weithgareddau sicrhau ansawdd trylwyr.***
***A2. Cryfhau gallu arweinwyr i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth yn sgil ei heffaith.***
***A3. Rhannu'r arferion cryf yn yr addysgu er mwyn cysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol.***

Addaswyd ein Cynllun Gwella Ysgol, ein Cynllluniau Gwella Adrannol a'n calendr hunanarfarnu i fynd i'r afael â'r argymhellion. Yn dilyn ymweliad interim Estyn llynedd oedd yn edrych ar y cynnydd ar yr argymhellion, defnyddiwyd ystod lawnach o ddulliau hunanwerthuso gan roi mwy o gyfleoedd eto i arweinwyr canol i ymgymryd a gweithgareddau sicrhau ansawdd er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithiol. Sicrhawyd bod arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau yn canolbwyntio mwy ar safonau dysgu a chynnydd disgyblion a bod ein rhaglen ddysgu broffesiynol yn darparu cyfleoedd digon effeithiol i arweinwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o effaith y ddarpariaeth ar safonau a chyflawniad disgyblion.

| **Aelodau'r Corff Llywodraethol** | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** Ms Catrin James<br>**Is-gadeirydd:** Mrs Nerys Defis<br>**Clerc:** Miss Siân Thomas<br>**Manylion cyswllt:** sian.thomas@bromyrddin.org / swyddfa@bromyrddin.org | |
| Mae 20 o aelodau ar y Corff Llywodraethol: | |
| Pennaeth | 6 Rhiant Llywodraethwr |
| 5 Cynrychiolydd Cymunedol | 2 Gynrychiolydd Athrawon |
| 5 Cynrychiolydd yr ALl | 1 Cynrychiolydd Staff |
| **Llywodraethwyr yr ALl** *(cyfnod yn dod i ben)*<br>Parchedig Tom Defis (01.02.27)<br>Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths (25.09.24)<br>Mr Arwel Lloyd (31.05.25)<br>Cynghorydd Meinir James (31.08.26)<br>Mr Rhys Jones (09.10.27) | **Llywodraethwyr Cymunedol** *(cyfnod yn dod i ben)*<br>Mr Elfed Davies (18.01.25)<br>Parchedig Beti Wyn James (29.03.25)<br>Mrs Luned Thomas (29.03.25)<br>Mrs Angharad Jones-Leefe (30.03.26)<br>Mrs Catrin James (31.12.24) |
| **Rhieni Llywodraethwyr** *(cyfnod yn dod i ben)*<br>Mrs Adele Davies (31.12.24)<br>Mrs Michelle Llewelyn (31.12.24)<br>Mrs Tanja Neumayer-James (31.12.24)<br>Mrs Catrin Reading (01.12.25)<br>Mr Eirian Rees (17.07.24)<br>Mrs Nerys Defis (16.12.26) | **Cynrychiolwyr *Athrawon*** *(cyfnod yn dod i ben)*<br>Mrs Tracy Jenkins (31.08.25)<br>Mrs Helen Evans (01.09.27)<br><br>**Cynrychiolwr Staff** *(cyfnod yn dod i ben)*<br>Mrs Karen John (26.09.28) |

# Cynllun Gwella Ysgol
# Adroddiad ar flaenoriaethau 2024-25

Mae’r canlynol yn amlinellu’r prif flaenoriaethau, y camau gweithredu, a’r cynnydd a wnaed o dan Gynllun Gwella’r Ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024–25.

| Blaenoriaeth strategol YBM | Camau gweithredu yn y Cynllun Gwella Ysgol | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Maes Allweddol 1: Dysgu**<br><br>**Blaenoriaeth 1: Cyfleoedd pwrpasol yn cael eu darparu i wella medrau’r disgyblion ar draws y cwricwlwm** | • Llythrennedd – datblygu uwch-fedrau darllen y disgyblion ar draws y cwricwlwm.<br>• Rhifedd - datblygu sgiliau’r disgyblion i ddewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol sydd a graddfeydd addas a datblygu sgiliau’r disgyblion i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.<br>• Cymhwysedd Digidol – datblygu cyfleoedd amrywiol i alluogi’r disgyblion i gynhyrchu asedau digidol pwrpasol i gwrdd a chynulleidfa darged.<br>• Arsylwadau gwersi i ganolbwyntio ar y defnydd o gwestiynu effeithiol a thechnegau effeithiol i herio disgyblion CA4 er mwyn codi safonau CA4.<br>• Mapio tasgau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol ar draws y MDPh trwy ddefnyddio’r teclyn a ddatblygwyd ar y cyd gyda’r arweinydd digidol. | **Cryfderau:**<br>• Mae’r ysgol wedi ymateb i’r holl bwyntiau yn y flaenoriaeth.<br>• Trwy fod yn rhan o brosesau hunan-arfarnu’r ysgol, e.e. arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau, mae gan y Cydlynwyr well trosolwg o nid yn unig y ddarpariaeth rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol, ond cynnydd y disgyblion yn eu medrau ar draws y MDaPh.<br>• O ran llythrennedd gwelwyd tystiolaeth o ddatblygu uwch sgiliau darllen yn enwedig yn y llyfrau Cymraeg, Saesneg a Dyniaethau ar draws CA3.<br>• Canllawiau yn esbonio uwch sgiliau darllen wedi'u rhannu i bob adran, gyda chasgliad o adnoddau pwrpasol ar gyfer pob sgil hefyd wedi'u rhannu.<br>• Yn dilyn y craffu ar lyfrau, trefnwyd hyfforddiant staff cyfan gan Lowri Davies o Partneriaeth er mwyn targedu uwch sgiliau darllen. Unwaith eto, rhannwyd yr adnoddau gyda'r staff cyfan.<br>• Cydlynwyr y medrau wedi gweithio'n unigol gyda phenaethiaid adran er mwyn trafod cyfleoedd.<br>• O ran rhifedd - gwelwyd bod gwelliant i gymharu gyda blynyddoedd cynt, yn benodol gan fod disgyblion bellach nid yn unig yn llunio graffiau, ond yn eu dehongli ynghyd â’r wybodaeth fathemategol, trwy ddod i gasgliadau o fewn cyd-destun pynciol. Gwelwyd tystiolaeth o hyn mewn llyfrau y MDaPh Dyniaethau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Gwelwyd bod cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion i ddatblygu eu sgiliau graffigol yn y pynciau galw uchel.<br><br>**Gwelliannau sydd angen mynd i’r afael â nhw:**<br>• Lleihau dibyniaeth ar dasgau darllen sy’n galw am sgimio a sganio testunau yn unig a datblygu tasgau sy’n galluogi dysgwyr i ddatblygu eu uwch sgiliau darllen, yn enwedig yn y Celfyddydau, Dylunio a Thechnoleg a Drama.<br>• Yn dilyn hyfforddiant Partneriaeth, adrannau i dreialu tasgau yn defnyddio'r templedi parod a rannwyd.<br>• Sicrhau bod datblygu sgiliau uwch-ddarllen yn darged benodol ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn linell ymholi o ran y teithiau dysgu a’r craffu.<br>• O ran rhifedd, angen sicrhau nad oes tueddiad i ddibynnu’n ormodol ar waith graffiau. Golyga hyn bod prinder tystiolaeth o linynnau rhifedd eraill i weld yn llyfrau’r dysgwyr. |
| **Maes Allweddol 1: Dysgu**<br><br>**Blaenoriaeth 2: Gwreiddio dilyniant a chynnydd yng Nghwricwlwm i Gymru** | • Mapio elfennau Cwricwlwm i Gymru<br>• Rhannu gweledigaeth yr ysgol a’r MDPh trwy ddiweddaru y platfform digidol Cwricwlwm i Gymru. Llunio a chyhoeddi crynodeb o gwricwlwm yr ysgol.<br>• Datblygu dealltwriaeth a hyder staff wrth gynllunio ar gyfer ac adrodd ar gynnydd disgyblion. Gwreiddio strategaethau ysgol gyfan effeithiol i rhoi ffocws pendant a chlir ar effeithiolrwydd y dysgwr er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn adnabod sut i wneud cynnydd.<br>• Gwreiddio Cwricwlwm i Gymru ym Mlwyddyn 9 gan sicrhau bod yr elfennau mandadol (gan gynnwys yr egwyddorion cynnydd) a hanfodion y dysgu’n sail i'r gwaith cynllunio.<br>• Mireinio ac addasu cynlluniau gwaith Blwyddyn 7 ac 8 yn barhaus er mwyn sicrhau dilyniant a her, gan ddefnyddio'r 12 Egwyddor Addysgeg a’r Model Dysgu ac Addysgu. | **Cryfderau**<br>• Pob MDaPh wedi mapio’r Pedwar Diben, Sgiliau Cyfannol a Sgiliau Disgyblaethol ar gyfer Blwyddyn 7, 8 a 9.<br>• Gweithgor Mathemateg a Rhifedd wedi cyfarfod a chanolbwyntio ar addysgeg. Athrawon y MDaPh ar draws y Clwstwr wedi cytuno ar strategaethau dysgu ac addysgu ac adnoddau wedi rhannu ar sianel Team y Clwstwr er mwyn hwyluso hyn.<br>• Gweithgor Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu wedi cyfarfod. Ffocws y cyfarfod oedd cytuno ar ffurfiau ysgrifennu ar hyd y continwwm er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y Clwstwr.<br>**Gwelliannau sydd angen mynd i’r afael â nhw:**<br>• Datblygu dealltwriaeth a hyder staff wrth gynllunio ar gyfer ac adrodd ar gynnydd disgyblion. Gwreiddio strategaethau ysgol gyfan effeithiol i rhoi ffocws pendant a chlir ar effeithiolrwydd y dysgwr er mwyn |

| | | |
|---|---|---|
| | • Sefydlu gweithgorau MDaPh ar draws y Clwstwr. Cydweithio er mwyn rhannu arfer dda ac i ddatblygu continwwm y cwricwlwm wrth drafod addysgeg ac asesu. | sicrhau bod y disgyblion yn adnabod sut i wneud cynnydd.<br>• Gwerthuso gwaith y Clwstwr gan ddefnyddio llais rhanddeiliaid y Clwstwr a llunio blaenoriaethau'r Clwstwr ar gyfer mis Medi. |
| **Maes Allweddol 2: Lles ac agweddau at ddysgu**<br><br>**Blaenoriaeth 3: Gwella presenoldeb disgyblion ar draws yr ysgol** | • Dadansoddi data presenoldeb ysgol gyfan a grwpiau o ddysgwyr o gronfa ddata craidd Llywodraeth Cymru gan adnabod y meysydd / grwpiau sydd angen mynd i'r afael gyda nhw er mwyn codi canrannau.<br>• Penodi Arweinydd Strategol ar Bresenoldeb newydd dros dro er mwyn monitro presenoldeb pob disgybl gan ddilyn prosesau'r ysgol pan fo consyrn yn codi – siarad gyda'r disgybl a'r cartref gan drefnu llythyron, cyfarfodydd a chyfeiriadau i'r tîm diogelu a phresenoldeb y sir ac asiantaethau gwahanol.<br>• Cryfhau y bartneriaeth rhwng yr arweinydd presenoldeb newydd a'r PB a'r swyddog cynhwysiant er mwyn sicrhau eu bod yn adnabod, tracio a thargedu disgyblion sy'n peri consyrn.<br>• Sicrhau bod absenoldebau heb esboniad yn cael eu hadnabod cyn gynted â phosibl a datblygu'r defnydd o Edulink One i hysbysu rhieni.<br>• Adnabod cyfleoedd / cwricwlwm amgen i ddysgwyr sydd a phresenoldeb isel a rhwystrau i ddysgu.<br>• Hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb ymysg rhieni a dysgwyr gan gydweithio ar ymgyrch presenoldeb gyda'r Sir.<br>• Cynnal grwpiau ffocws gyda dysgwyr sydd a phresenoldeb is na 90% i ddatblygu strategaeth effeithiol er mwyn gwella prydlondeb. | **Cryfderau:**<br>• Llythyru mwy cyson gyda unigolion a grwpiau penodol o ran presenoldeb.<br>• Presenoldeb wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Ar darged i fod 1% yn uwch eleni ar gyfer presenoldeb ysgol gyfan.<br>• Cyfweliadau gydag unigolion wedi eu cynnal ond nid grwpiau ffocws.<br>**Gwelliannau sydd angen mynd i'r afael â nhw:**<br>• Sicrhau bod absenoldebau heb esboniad yn cael eu hadnabod cyn gynted â phosibl a datblygu'r defnydd o Edulink One i hysbysu rhieni.<br>• Angen cynnal grwpiau ffocws gyda dysgwyr sydd a phresenoldeb is na 90% a defnyddio'r wybodaeth i yrru newidiadau.<br>• Targedu dysgwyr PYD ac ADY yn well. |
| **Maes Allweddol 2: Lles ac agweddau at ddysgu**<br><br>**Blaenoriaeth 4: Ymddygiad – Datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu.** | • Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth trawma i staff dysgu a chynorthwyol yr ysgol ac ysgolion clwstwr.<br>• Yn dilyn blwyddyn o ddefnyddio Edulink One bydd tîm bugeiliol yr ysgol yn datblygu cynllun pwyntiau ymddygiad clir ar Edulink One i dargedu aflonyddwch lefel isel.<br>• Cyflwyno a defnyddio cerdyn adroddiad ar Edulink One i'r dysgwyr sydd yn cyrraedd trothwy o ran pwyntiau / digwyddiadau ymddygiad.<br>• Cryfhau'r cyswllt gyda thîm cynnal ymddygiad y sir i gefnogi dysgwyr sydd ag ymddygiad lefel uchel. Defnyddio cyfarfodydd aml-asiantaethol i drafod ymddygiad dysgwyr penodol er mwyn sicrhau bod cymorth arbenigol yn cael ei gynnig.<br>• Datblygu rôl ein swyddog cynhwysiant ymhellach i gynnig ymyraethau ymddygiad penodol i sicrhau bod dysgwyr sydd angen yn derbyn cymorth ymddygiad mewnol. Sicrhau bod amserlen clir yn cael ei greu.<br>• Adnabod cyfleoedd yng nghwricwlwm yr ysgol i ddiwallu anghenion dysgwyr sydd ag agwedd negyddol at ddysgu. Sicrhau bod pob dysgwyr yn derbyn cyfleoedd gwerthfawr a fydd yn gwella eu hagwedd at ddysgu. | **Cryfderau:**<br>• Pob PB a'r UDA wedi derbyn hyfforddiant 'Team teach' erbyn hyn i gynnig ymyrraeth i ddysgwyr sydd ag ymddygiad difrifol wael.<br>• Nifer o rieni sy'n defnyddio Edulink One wedi cynyddu yn sylweddol. Ymateb bron pob un rhiant yn gefnogol wrth gefnogi ymddygiad gwell.<br>• Cyd-weithio gwell rhwng yr ysgol a'r tîm cefnogi ymddygiad Sirol.<br>• Amrywiaeth ehangach o asiantaethau yn gweithio gyda'r ysgol o ran ymddygiad.<br>• Swyddog cynhwysiant wedi derbyn hyfforddiant pellach i gynnig ymyraethau ymddygiad penodol i sicrhau bod dysgwyr sydd angen yn derbyn cymorth ymddygiad mewnol.<br>**Gwelliannau sydd angen mynd i'r afael â nhw:**<br>• Adolygu'r system pwyntiau eto yn seiliedig ag adborth staff, rhieni a dysgwyr i sicrhau system mwy teg o ran ymddygiad / clod.<br>• Gwella'r defnydd o gerdyn arddodiad. |
| **Maes Allweddol 3: Arwain a Gwella**<br><br>**Blaenoriaeth 5: Datblygu arweinwyr i yrru gwelliannau ysgol gyfan.** | • Cyflwyno strategaeth farcio newydd ar gyfer Medi 2024 yn seiliedig ar waith treialu'r gorffennol a sylwadau yn dilyn ymweliad interim Estyn.<br>• Diwygio systemau adrodd i rieni CA3 er mwyn cyflwyno adroddiadau am gynnydd y dysgwyr sydd yn ateb gofynion statudol adrodd Cwricwlwm i Gymru ac yn sicrhau cysondeb o ran cynnwys a diwyg yr adroddiadau ar draws adrannau.<br>• Diweddaru systemau tracio er mwyn tracio cynnydd disgyblion CA3 yn unol a gofynion Cwricwlwm i Gymru. Defnyddio'r data tracio i greu adroddiadau interim i rieni ac adnabod a chynnig ymyrraeth i ddisgyblion sydd ddim yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.<br>• Diwygio y Cynllun Gwella Ysgol a'r Cynllun Gwella Adran 2024-25 er mwyn ymateb i sylwadau adroddiad interim Estyn Mehefin 2024.<br>• Cyflwyno cylch datblygu perfformiad newydd Medi 2024 gan ddilyn y polisi Sirol. Gweithredu'r cynllun newydd ar draws yr ysgol.<br>• Cysoni disgwyliadau uchel a chryfhau dealltwriaeth yr UDA a rheolwyr canol o gryfderau a meysydd sydd | **Cryfderau:**<br>• Proses sicrhau ansawdd PAG wedi ei gwblhau a'r adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Sir a'r llywodraethwyr.<br>• 4 athro wedi cwblhau'r rhaglen ddatblygiad proffesiynol mewnol ar y cyd gyda PAG.<br>• Y teithiau dysgu a'r craffu wedi bod yn fuddiol i bawb a'r adroddiadau manwl yn arwain at newidiadau.<br>• Rheolwyr canol wedi eu datblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn.<br>• Y polisi datblygu perfformiad yn weithredol ac yn sicrhau bod pob aelod o staff wedi cael cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol.<br>• Banciau sylwadau ar gyfer adroddiadau newydd i'r rhieni wedi eu cwblhau ar gyfer blwyddyn 7.<br>**Gwelliannau sydd angen mynd i'r afael â nhw:**<br>• Datblygu ymhellach y prosesau sicrhau ansawdd PAG a'r cydweithio strategol rhwng y dair ysgol er mwyn gwireddu strategaeth ôl-16 y Sir.<br>• Angen cryfhau atebolrwydd a dealltwriaeth rheolwyr canol ymhellach a datblygu cyfweliadau ffurfiol rhwng yr arweinwyr canol a swyddogion yr AALl / PAG. |

| | | |
|---|---|---|
| | angen gwella yn eu hadrannau er mwyn mynd i'r afael yn llawn ac yn glir gyda'r meysydd hyn.<br>• Cryfhau atebolrwydd a dealltwriaeth trwy sicrhau fod rheolwyr canol yn rhan o brosesau safoni ansawdd yr ysgol gyfan gan gynnwys teithiau dysgu, craffu ysgol gyfan.<br>• Cryfhau prosesau sicrhau ansawdd cyrsiau Partneriaeth Addysg Gymraeg (PAG) er mwyn sicrhau fod safon y dysgu ac addysgu yn gyson uchel. Cynnal grwpiau ffocws disgyblion a holiaduron.<br>• Sefydlu rhaglenni datblygiad proffesiynol mewnol ac ar y cyd gyda PAG / CYDAG a fydd yn datblygu arweinyddiaeth ar draws yr ysgol. | • Datblygu banciau sylwadau ar gyfer adroddiadau blwyddyn 8 a 9 yn gynnar ym Medi cyn symud ymlaen i CA4 yn hwyrach yn y flwyddyn. |

## Trefn y dydd ym Mro Myrddin

Trefnir yr amserlen ar batrwm o 5 gwers y dydd dros gyfnod o ddeg diwrnod. Isod gweler amseroedd y sesiynau.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8:55-9:05 | Cofrestru | | 10:20-10:35 | Egwyl | | 12:35-1:35 | Cinio |
| 9:05-9:20 | Gwasanaeth | | 10:35-11:35 | Gwers 2 | | 1:35-2:35 | Gwers 4 |
| 9:20-10:20 | Gwers 1 | | 11:35-12:35 | Gwers 3 | | 2:35-3:35 | Gwers 5 |

## Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2025-26

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd |
|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | |
| Hydref 2025 | 2 Medi | 27 Hydref | 31 Hydref | 19 Rhagfyr |
| Gwanwyn 2026 | 5 Ionawr | 16 Chwefror | 20 Chwefror | 27 Mawrth |
| Haf 2026 | 13 Ebrill | 25 Mai | 29 Mai | 20 Gorffennaf |
| Dyddiau HMS – 2 Medi; 3 Medi; Hydref 24, 2025; Chwefror 23; Mawrth 27; Mai 1, 2026.<br>O.N – Gwener y Groglith – 18 Ebrill, 2025; Calan Mai – 5 Mai 2026. | | | | |

## Penodiadau staff newydd ar gyfer Medi 2023 ac yn ystod y flwyddyn

Y staff canlynol wedi cychwyn ym mis Medi:

- Mrs Siwan Rees, Pennaeth yr Adran Saesneg
- Miss Sara Griffiths, Athrawes Saesneg
- Mrs Donna Thomas, Dr Lois Slaymaker-Jones a Dr Hefin ap Llwyd Dafydd – cynllun pontio Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Mrs Ffion Evans, Miss Amy Rand, Miss Cadi Clark (Tachwedd 4) – Cynorthwywyr Addysgu

Y staff canlynol wedi cychwyn ym mis Ionawr 2024:

- Miss Rhianwen Davies, CADY
- Mr Gwyn Rosser, Athro Dyniaethau
- Mrs Branwen Rhys, Cynorthwyydd Addysgu.

## Cysylltiadau â'r gymuned

Rydym bellach yn ceisio defnyddio adeilad yr ysgol ar gyfer tipyn o ddigwyddiadau cymunedol. Cynhaliwyd eisteddfod Sir yr Urdd, eisteddfod Sir y Ffermwyr Ifanc ac Eisteddfod Cymru y Ffermwyr Ifanc ar y safle eleni a defnyddiwyd y neuadd a'n caeau yn achlysurol gan y gymuned hefyd. Llwyddwyd i gadw cysylltiad agos gyda'n Heddwas Cyswllt Ysgol, PC Cath Williams Mae hi wedi ein cefnogi yn dda iawn yn ein rhaglen ABCh ac wedi cydweithio'n agos iawn gyda'n Penaethiaid Blwyddyn a'r Uwch Dîm Arwain. Mae ei chyngor parod a'i gwaith wedi bod yn werthfawr iawn i ni. Eleni daeth llu o siaradwyr gwadd i'r ysgol i gynnig cymorth gan gynnwys cynrychiolwyr o fusnesau lleol, mudiadau iaith, colegau, yr Urdd a'r rotari i enwi ond ychydig.
Mae ein pwyllgor dyngarol yn gweithio'n galed yn flynyddol i godi symiau sylweddol o arian i achosion dyngarol lleol a chenedlaethol. Yn ystod y flwyddyn 2024-25 llwyddwyd i gasglu £4,000.

## Adroddiad blynyddol – Cyllid

Mae gan y Llywodraethwyr is-bwyllgor Cyllid ac Adeiladau sy'n cyfarfod unwaith y tymor i drafod y pynciau penodol hyn.  Yn y flwyddyn 2024/25 llwyddodd yr ysgol unwaith eto i orffen y flwyddyn ariannol o fewn y gyllideb.

## Datganiad Ariannol yr ysgol 2024/25

| | | Cyllideb | Gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | Cyflogau | 4,858,009 | 4,739,821 |
| | Adeiladau | 468,584 | 475,827 |
| | Cyflenwadau a Gwasanaethau | 640,423 | 700,490 |
| | | 5,967,016 | 5,916,139 |
| **Incwm** | | **Cyllideb** | **Gwirioneddol** |
| | Derbynebau Cwsmeriaid | 649,996 | 656,249.29 |
| | Grantiau'r Llywodraeth | 5,313,917 | 5,633,052.99 |
| | Grantiau eraill | 58,518 | 90,374 |
| | **Cyfanswm** | **6,022,431** | **6,379,677** |
| **Gwarged / Diffyg** | | 55,414 | 463,538 |

## Perfformiad Disgyblion

Fel y gwelwch o'r tablau isod, mae canlyniadau academaidd ein disgyblion yn destun balchder.  Nid oedd yn ofynnol i ni adrodd am flynyddoedd y pandemig ac, felly, nid yw y canlyniadau hynny wedi eu nodi.

## Crynodeb o Berfformiad ysgolion Uwchradd
## TGAU

| | 2018 | 2019 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| L2 Cymraeg | 85.2% | 87.2% | 91.5% | 87.1% | 85.6% |
| L2 Saesneg | 69.1% | 81.0% | 86.2% | 71.1% | 72.2% |
| L2 Mathemateg | 77.9% | 85.8% | 88.9% | 77.9% | 72.2% |
| L2 Gwyddoniaeth | 77.2% | 82.8% | 85.0% | 71.8% | 62.3% |
| L1 | 100% | 98.5% | 98.6% | 97.3% | 96.7% |
| L2 | 81.2% | 86.6% | 90.3% | 83.2% | 81.5% |
| L2+ | 75.2% | 84.3% | 86.2% | 73.8% | 70.2% |
| Pwyntiau (cap 9) | 405.8 | 410.8 | 405.1 | 401 | 392 |
| 5 A* i A | | 35.8% | 27.2% | 32.9% | 26.5% |
| Tystysgrif Her | 44.0 | 44.0 | 40 | 43 | 42 |
| Rhifedd | 46 | 46.1 | 45.4 | 43 | 43 |
| Llythrennedd | 46.3 | 46.2 | 47.6 | 46 | 45 |

| Gwyddoniaeth | 44.6 | 43.6 | 42.1 | 41 | 39 |
|---|---|---|---|---|---|

## Lefel A

| | Graddau A* | Graddau A* i A | Graddau A* i E |
|---|---|---|---|
| **Ysgol 2024/25** | 6.8% | 30.1% | 96% |
| **Ysgol 2023/24** | 11.2% | 39.3% | 96.8% |
| **Cymru 2022/23** | 10.4% | 29.8% | 97.8% |

## Cyrchfannau disgyblion

| Disgyblion | Bl 11 | | Bl 12 | | Bl 13 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| | 152 | | 104 | | 87 | |
| Parhau mewn addysg llawn amser – yn yr ysgol hon | 80 | 53 | 94 | 90 | 1 | 1 |
| Parhau mewn addysg llawn amser – mewn ysgol arall | 3 | 2 | | | 1 | 1 |
| Parhau mewn addysg llawn amser – coleg | 55 | 36 | 2 | 2 | 3 | 3 |
| Parhau mewn addysg llawn amser – cwrs addysg Uwch | | | | | 57 | 66 |
| Parhau mewn addysg rhan amser | | | | | | |
| Hyfforddiant ieuenctid gan gynnwys prentisiaeth | 9 | 5 | 2 | 2 | 4 | 5 |
| Di-waith ac wedi'i gofrestru â Gyrfa Cymru | 1 | 1 | | | 3 | 3 |
| Di-waith a heb ei gofrestru â Gyrfa Cymru | | | | | | |
| Methu â dechrau Cyflogaeth, Addysg Uwch yn sgil salwch | 1 | 1 | | | | |
| Wedi gadael yr ardal | | | | | | |
| Ddim yn ymateb i gamau dilynol ac felly ddim yn gwybod | | | | | | |
| Swydd | 3 | 2 | 6 | 6 | 18 | 21 |

## Presenoldeb

Mae newid mawr wedi bod ym mhatrwm presenoldeb yr ysgol ers i ni adrodd ar bresenoldeb cyn cyfnod y pandemig. Siomedig oedd presenoldeb y disgyblion yn y flwyddyn 2023-24 gydag absenoldebau hir dymor yn effeithio'n fawr ar y ganran. Pryder hefyd yw'r ffaith bod llawer o'n disgyblion yn colli ysgol oherwydd gwyliau teuluol. Llwyddwyd i wella ychydig ar ein presenoldeb ar gyfer 2024-25 ond eto nid ydym yn hapus gyda'r cynnydd.

- 91.2% Presenoldeb
- 7.1% Absenoldebau a awdurdodwyd
- 1.7% Absenoldebau heb awdurdod

## Disgyblaeth

Rhaid wrth reolau ysgol er mwyn diogelu trefn a safonau o fewn yr ysgol. Seilir ein rheolau ar y syniadau canolog o hunan barch, parch at eraill a synnwyr cyffredin. Trafodir y rheolau yn y gwersi ABCh a disgwylir i bob disgybl gydymffurfio. Cynhelir safonau uchel o ddisgyblaeth trwy weithredu system glir o ddisgyblu disgyblion nad ydynt yn cydymffurfio. Yr athro pwnc sydd yn delio â'r disgybl yn gyntaf ac os nad yw hyn yn adfer y sefyllfa mae'r mater yn cael ei drafod o fewn yr Adran. Os oes angen delio ymhellach gyda'r disgybl fe'i cyfeirir at y Pennaeth Blwyddyn i gynnal trafodaethau pellach cyn trafod cyfnod o 'fyfyrio' awr ginio. Os yw disgybl yn camymddwyn yn gyson ac yn cael ei osod mewn cyfnod o 'fyfyrio' awr ginio mwy na thair gwaith yna hysbysir y rhieni y cedwir y disgybl ar ôl ysgol. Gellir atal disgybl rhag dod i'r ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gweithredir polisi hybu ymddygiad

cadarnhaol yn yr ysgol ac oherwydd hynny, prin yw'r camymddwyn o fewn a thu allan i furiau'r ysgol. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi clir wrth ddelio â materion yn ymwneud â bwlian, ac yn ymateb yn syth os bydd pryderon.

## Iechyd a Diogelwch

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Cynrychiolir pob categori cyflogaeth o blith y staff ar Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y staff. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn ôl i Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Llywodraethwyr. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch am unrhyw ddiffygion / peryglon yn syth. Mae ffensys diogelu o gwmpas safle yr ysgol ers Medi 2018 sy'n sicrhau diogelwch y safle ac rydym yn ychwanegu atynt yn flynyddol.

## Trefniadau arbennig o safbwynt hygyrchedd i ddisgyblion, staff a rhieni gydag anableddau

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadau Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau nad yw disgyblion (neu rywun arall sy'n rhanddeiliad yr ysgol) ag anableddau yn cael eu trafod yn llai ffafriol nag eraill.

## Prosbectws yr ysgol

Caiff Prosbectws yr Ysgol ei addasu yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a chyrff perthnasol eraill. Mae copïau ar gael ar wefan yr ysgol neu dros e-bost neu os oes problemau gyda hynny, darperir copi caled drwy gais i swyddfa'r ysgol.

## Cyfrwng Addysgu a Pholisi Iaith

Categori iaith yr ysgol yw CC. Addysgir ac asesir holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Myrddin a'r cyfrwng addysgu yma, sef y Gymraeg, yw'r norm, wrth reswm, i'r disgyblion sy'n dewis Bro Myrddin fel ysgol uwchradd. Mae pob disgybl yn astudio pob pwnc, ac eithrio'r Saesneg, trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau a TGCh cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, gwyddonol a mathemategol y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau y bydd pob disgybl yn medru trafod y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn dileu unrhyw ofid a all fodoli ymhlith y rhai sy'n credu y gall addysg wyddonol a mathemategol trwy'r Gymraeg yn unig ei gwneud yn anodd i ddisgyblion addasu i gyd-destun gwyddoniaeth a mathemateg cyfrwng Saesneg wedi gadael ysgol.

## Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a'r mwyafrif helaeth o wersi academaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymreig ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Anogir disgyblion sydd yn dewis mynychu'r ysgol i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy annog eu plant i siarad Cymraeg, i barchu Cymreictod yr ysgol a'u hannog hwy i wneud eu gorau i hybu hyn ar bob achlysur. Mae'r ysgol wedi gweithredu ar dargedau Cynllun Strategol Iaith Sir Gâr i symud yr ysgol ar hyd y continwwm ieithyddol. Canlyniad hynny yw bod yr ysgol ers Medi 2016 wedi newid categori iaith o 2A i CC. Golyga hynny, bod pob pwnc oni bai am y Saesneg yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Polisïau

Adolygwyd holl bolisiau yr ysgol yn ystod y flwyddyn.

## Adroddiad Anghenion Addysgol Arbennig 2024-25

Ein nod yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yw addysgu disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ochr yn ochr â'u cyfoedion trwy weithredu darpariaeth ysgol gyfan. Er i ddisgyblion dderbyn cwricwlwm gwahaniaethol, fe fydd yna adegau pan fydd rhai unigolion yn cael eu tynnu allan o ddosbarthiadau dros dro, er mwyn canolbwyntio ar rai agweddau penodol megis sgiliau emosiynol a chymdeithasol, ffisio, trefn a blaenoriaethu a llythrennedd. Gwneir hyn ar sail profion safonol, gwybodaeth o'r ysgolion gynradd, adborth rhieni ac athrawon ac adroddiadau a dderbynnir oddi wrth swyddogion yr awdurdod addysg neu'r gwasanaeth iechyd.

Lle nad yw'r cynnydd yn ddigonol, efallai na fydd dysgu ac addysgu da, gan gynnwys gwahaniaethu ac ymyriadau

safonol rheolaidd wedi'u targedu neu addasiadau rhesymol, yn ddigonol i ddiwallu anghenion pob dysgwr. Mae'n ddigon posibl y bydd dysgwyr o'r fath yn cael eu nodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac y bydd angen i'r ysgol gymryd camau ychwanegol neu wahanol i sicrhau cynnydd.

Mae gan ddysgwr ADY os oes ganddo/ganddi anhawster neu anabledd dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae gan blentyn sydd o oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster neu anabledd dysgu:

- os yw'n cael anhawster **sylweddol** fwy i ddysgu na mwyafrif y dysgwyr eraill sydd o'r un oedran, neu
- os oes ganddo **anabledd**, yn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol.

O dan y system ADY newydd, ar gyfer unrhyw ddysgwr y nodwyd bod ganddo ADY, bydd angen i'r ysgol greu a chynnal **Cynllun Datblygu Unigol (CDU)** a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol angenrheidiol i ddiwallu'r angen a aseswyd yn cael ei ddarparu.

O ran staff yr adran mae arbenigedd am anawsterau arbenigol yn datblygu. Mae llawer o'r Cynorthwywyr Cynnal Dysgu wedi mynychu sefydliadau addysgol anghenion dysgu fel rhan o'i datblygiad proffesiynol ac wedi dilyn cyrsiau amrywiol a hyfforddiant priodol. Bu cynnydd sylweddol yn yr angen am amserlenni amgen i unigolion yn ystod y flwyddyn ac mae'r staff yn cynnig sesiynau Talkabout for teenagers, ffisio, Fresh Start llythrennedd a phrosesu, blaenoriaethu a threfn a strategaethau lleihau straen a meddwlgarwch.

Derbynia nifer fawr o ddisgyblion drefniadau mynediad yn eu harholiadau allanol a mewnol. Mae rhain yn adlewyrchu ffordd normal o weithio yn y dosbarth ac o ganlyniad i ganlyniadau profion safonedig, barn athrawon ac asiantaethau allanol a thystiolaeth o dasgau disgyblion. Eleni, mae amryw o ddisgyblion Bro Myrddin yn derbyn y trefniadau mynediad canlynol:

- Darllenydd neu ddarllenydd cyfrifiadur
- 25% o amser ychwanegol
- Ystafell arall
- Cyfnodau egwyl
- Chromebook fel ffordd arferol o gofnodi
- Anogwr
- Ysgrifennydd
- Ffont mwy o faint

## Lles disgyblion

Mae gennym dîm o bobl yn gweithio er mwyn lles y disgyblion. Mae tri aelod o staff wedi eu hyfforddi fel swyddogion amddiffyn plant – Dr Llinos Jones, y pennaeth; Mr Jonathan Thomas, dirprwy bennaeth a Mr Steffan Davies, pennaeth cynorthwyol. Mae'r penaethiaid blwyddyn yn chwarae rôl holl bwysig, felly hefyd y swyddog ieuenctid, swyddog cynhwysiant, iechyd a lles, nyrs iechyd yr ysgol a chwnselydd. Gwelwyd 87 o ddisgyblion gan gwnselyddion yr ysgol Mrs Helen Bytheway, Mr Gareth Jones a Miss Ellie Hanley eleni wrth iddynt gynnig cyfanswm o 399 awr o gwnsela. Mae'r cynllun Mentora Cyfoedion, sef cynllun i hyfforddi disgyblion y chweched dosbarth i weithio gyda phlant bregus yn mynd o nerth i nerth. Rydym yn parhau i ddefnyddio system MyConcern i gofnodi achosion lles. Golyga hyn bod gennym gofnodion manwl yn ogystal â'r gallu i ddadansoddi anghenion lles ein dysgwyr sy'n cael ei rannu gyda holl staff yr ysgol yn ein HMS blynyddol ym mis Medi. Yn nhymor yr Hydref bob yn ail flwyddyn, bydd pob dysgwr yn cwblhau holiadur SHRN a bydd y canlyniadau yn cael eu dadansoddi yn nhymor y Gwanwyn. Byddwn yn addasu ein darpariaeth lles yn unol â'r canfyddiadau.

## Chwaraeon

Mae'r Llywodraethwyr o'r farn y gwireddwyd prif nodau chwaraeon yr ysgol sef:

- Darparu amgylchedd ddiogel sy'n symbyliad i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol
- Datblygu sgiliau corfforol
- Hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer.

Cynigir llu o weithgareddau gan yr adran gan gynnwys rygbi, pêl-droed, athletau, criced, tenis, gymnasteg, cyfeiriannu, badminton, aerobeg, trawsgwlad, pêl-rwyd, dawns greadigol, canŵio, rafftio, rownderi, sgïo, gweithgareddau awyr agored, hoci, pêl-fasged, rygbi cyffwrdd, pêl-foli, ymarfer cylched, ymarfer pwysau, dringo, beicio mynydd a mynydda. Yn ychwanegol mae llawer o'r disgyblion yn cwblhau Gwobr Efydd Dug Caeredin yn flynyddol. Mae llwyddiant ein disgyblion ar y caeau chwarae yn yr ysgol ac yn allgyrsiol yn arbennig gyda sawl unigolyn yn cyrraedd safon genedlaethol. Rydym wedi llwyddo i barhau gydag amserlen llawn o weithgareddau chwaraeon yn ystod y flwyddyn diwethaf.

## Llwyddiannau

Ymhyfryda'r ysgol hefyd yn llwyddiannau academaidd ac allgyrsiol ein disgyblion, nid yn unig ar y caeau chwarae ond ar lwyfannau cenedlaethol ac ym myd actio a'r cyfryngau.

## Gweithgareddau allgyrsiol

Yn flynyddol cynigir llu o brofiadau allgyrsiol i'n disgyblion i gyd-fynd gyda'u hastudiaethau academaidd. Yn arferol cynhelir teithiau niferus, gweithdai amrywiol, cystadlaethau diddorol, siaradwyr gwadd, cynadleddau blynyddol a chyfleoedd o bob math. Amlygir rhai o'r gweithgareddau allgyrsiol posibl ar ein gwefannau cymdeithasol ac ar ddiwedd yr adroddiad yma.

## Pwyllgor dyngarol

Mae gennym bwyllgor dyngarol gweithgar o 70 o ddisgyblion y chweched dosbarth. Eleni, llwyddwyd i gasglu £4,000.

## Cyfleusterau Toiled

Archwilir Cyfleusterau Toiled yn rheolaidd ac mae'n rhan o'r contract glanhau gyda'r Awdurdod. Mae'r disgyblion, drwy lenwi holiadur a thrwy waith y Cyngor Ysgol, yn cyfrannu at y gwaith o fonitro ansawdd y cyfleusterau hyn. Rydym wedi gweithredu ar ganlyniadau'r holiadur trwy gyflogi glanhawraig ar safle yn ystod y dydd i ganolbwyntio ar lanhau'r toiledau. Fe addaswyd dau o'n blociau toiledau ar gyfer Haf 2021 gan sicrhau toiledau agored a mynediad llawn i ddisgyblion anabl.

## Nodiadau ar Ysgolion Iach

Rydym wedi ymrwymo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer 'Blas am Oes'. Daeth hyn i rym ym mis Medi 2013. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r camau sydd eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod a werthir yn ein hysgol. Rydym wedi gweithredu ar hyn gyda chefnogaeth y gwasanaeth Arlwyo i sicrhau bod yr holl fwyd a diod yn ein hysgol yn cydymffurfio â'r mesur. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo drwy wersi Technoleg Bwyd, Bioleg ac ABCh. Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu gan staff o ran bwyd a diod yn yr ysgol ac oddi ar y safle.

## Cyfarfod Rhieni Blynyddol

Ers Mai 2013 mae trefniadau newydd mewn grym o ran cyfarfod blynyddol llawn y llywodraethwyr / rhieni. Yn hytrach na bod yn rhaid i gorff llywodraethau gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni, mae gan rieni'r hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu ar faterion sy'n destun pryder. Gall rhieni arfer yr hawl hon hyd at dair gwaith yn ystod blwyddyn ysgol, cyn belled mai pwrpas y cyfarfodydd yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol, nid cynnydd a chyflawniad disgyblion unigol na chwynion ynghylch aelod o staff neu aelod o'r corff llywodraethu. Caiff cyfarfod ei drefnu gyda'r Llywodraethwyr, felly, os bydd 10% neu 30 o'r rhieni yn gofyn yn ysgrifenedig am gael cyfarfod gan ddefnyddio adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

## Rhestr o deithiau, digwyddiadau a llwyddiannau 2024-25

**Adroddiad tymor yr Hydref 2024**

**Diwedd tymor yr Haf**

Yn ystod gwasanaethau blwyddyn, cafodd Dr Jones gyfle i ffarwelio â phob disgybl ar ddiwedd tymor gan ddymuno gwyliau hapus a diogel i bawb. Ar ddiwedd blwyddyn arall brysur, fe wnaethom ffarwelio gyda llawer o unigolion; Mrs Carys Jones – athrawes yn y adran Saesneg a Chelf. Dymunwyd pob lwc iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Griffith Jones. Miss Sara Hughes – cynorthwyydd addysgu a aeth i weithio gyda'r Sir. Mrs Hayley Kent – athrawes yn yr Adran Wyddoniaeth a dymunwyd pob hwyl iddi yn ei swydd newydd yn ysgol Bro Dinefwr. Mrs Elin Smith – athrawes yn yr

Adran Saesneg. Diolchwyd iddi am ei gwaith a dymunwyd yn dda iddi ar ei hymddeoliad. Mrs Sian Roberts Jones – athrawes yn yr Adran Gymraeg a Drama. Dymunwyd pob hwyl iddi hithau wrth newid gyrfa. Mr Dyfed James – Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Dymunwyd pob lwc iddo yn ei swydd newydd yn ysgol Aberteifi. Mrs Judith Al-Rawazik – athrawes yn yr Adran Saesneg a fu gyda ni am 18 mlynedd – dymunwyd pob hwyl iddi ar ei hymddeoliad. Ffarweliwyd gyda'n Pennaeth Cynorthwyol, Mrs Eirlys Thomas gan ddymuno'n dda iddi ar ei swydd newydd fel Dirprwy Bennaeth Ysgol Bro Teifi wedi cyfnod o ddeunaw mlynedd ym Mro Myrddin. Bu Mrs Ina Evans yn gweithio gyda ni am 22 o flynyddoedd fel llyfrgellydd am gyfnod ac yn ddiweddarach fel cynorthwyydd llungopïo. Diolchwyd iddi hithau am ei holl waith a dymunwyd yn dda iddi ar ei hymddeoliad. Yn dilyn cyfnod o 37 mlynedd yn gweithio fel Technegydd Gwyddoniaeth yn yr ysgol, daeth yr amser i Mrs Lonwen Bowen ymddeol o'i swydd. Diolchwyd iddi hithau hefyd.

**Canlyniadau TGAU a Lefel A**
Pleser oedd llongyfarch ein disgyblion ar ganlyniadau da a ddangosodd eu hymroddiad a'i gwydnwch. Diolchwyd i bawb a'u cynorthwyodd i lwyddo.

**Dechrau Tymor yr Hydref**
Ar ôl ffarwelio gyda llawer o staff ar ddiwedd yr Haf, braf oedd gallu croesawu carfan newydd o staff atom; Pennaeth Saesneg – Mrs Siwan Rees
Athrawes Saesneg – Miss Sara Griffiths
Athrawon Pontio – Dr Lois Slaymaker-Jones, Mrs Donna Thomas a Dr Hefin ap Llwyd Dafydd
Cynorthwyydd Addysgu – Mrs Ffion Evans

**Llangrannog**
Teithiodd disgyblion bl.7, swogs bl.13 a'u tiwtoriaid i Langrannog am dridiau ar gwrs pontio ym mis Medi – dyma gyfle iddynt ddod i adnabod eu cyfoedion a'u tiwtoriaid yn well wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol.

**Prif ddisgyblion**
Ar ôl i garfan flaenorol o Brif Swyddogion yr ysgol adael y nyth, pleser cyhoeddi enwau'r garfan fydd yn arwain ac yn ysbrydoli gweddill ein disgyblion am y flwyddyn 2024-2025. Prif Ferch – Siwan Matthews; Prif Fachgen – Harri Gibbon; Dirprwyon – Anest Elias, Erin Roderick, Tomos Lewis, Ifan Bowen.

**Cyngor ysgol**
Dyma aelodau y cyngor ysgol am 2024 a 2025. Llongyfarchiadau iddynt.
**Bl.7** – Lois Douch a Jac Evans
**Bl.8** – Neli Rees a Morgan Baker
**Bl.9** – Phebe Power a Frankie Richards
**Bl.10** – Cadi Davies a Tomos Jones
**Bl.11** – Maisie Layton a Gruffydd Evans
**Bl.12** – Sara Davies, Rhys Thomas, Luned Defis a Josh Cramb
**Bl.13** – Siwan Matthews, Harri Gibbon, Enlli James, Mia Evans a Harrison Taylor

**Ymweliad Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys**
Cafodd rhai o ddisgyblion bl.8 gyfle i siarad ar gamera yn dilyn ymweliad Dafydd Llywelyn â'r ysgol a hynny fel rhan o barhad y Rhaglen Ysgolion benodedig ar gyfer pobl ifanc yn y rhanbarth.

**Noson darpar rieni**
Llenwyd ffreutur yr ysgol gan rieni a disgyblion bl.6 ddiwedd y tymor wrth i ni eu croesawu i'r ysgol i rannu gwybodaeth am fl.7 a threfniadau'r flwyddyn newydd i'r disgyblion.

**Diwrnod Byd Gwaith bl.10**
Cyn iddynt fentro ar eu hwythnos o brofiad gwaith, cafodd disgyblion bl.10 ddiwrnod yn llawn gweithgareddau a gwybodaeth a drefnwyd gan Menter Gorllewin Sir Gâr. Diolch iddynt am eu gwaith gyda'r disgyblion. Yn yr un modd, diolch i'r lluaws o gwmnïoedd fu'n barod i gymryd ein disgyblion bl.10 a 12 yn ystod wythnos olaf y tymor ysgol a hynny er mwyn eu paratoi at fyd gwaith i'r dyfodol. Roedd yr wythnos hon yn gyfle gwych iddynt gael blas o'r hyn sydd gan sefydliadau a chwmnïau ei gynnig iddynt fel gyrfa.

**Pontio bl.5 a 6**
Croesawyd disgyblion bl.5 a disgyblion bl.6 i'r ysgol cyn yr Haf a hynny er mwyn profi blas o wersi a bywyd yr ysgol. Yn ychwanegol i ddau ddiwrnod bl.6 daeth tyrfa luosog o rieni ein darpar ddisgyblion i neuadd yr ysgol ar noson braf ym mis Gorffennaf a hynny i gwrdd rhai o staff yr ysgol cyn croesawu'r disgyblion i'r ysgol ym mis Medi, prynu gwisg ysgol ail law a chael cyfle i gwrdd â Phrif Swyddogion newydd yr ysgol. Diolch i bawb am eu cyflwyniadau tuag at lwyddiant y noson.

**Noson Agored**
Braint oedd cael croesawu lliaws o ddarpar ddisgyblion a'u teuluoedd i'r ysgol ar nos Iau 10fed o Hydref ar achlysur ein Noson Agored. Roedd hi'n braf gweld yr holl fwrlwm ar goridorau ac yn yr ystafelloedd dosbarth gyda phawb yn mwynhau'r arlwy o wrando ar gorau'r ysgol yn ymarfer, wneud arbrofion gwyddonol, chwarae gemau ieithyddol a thynnu lluniau.

**Gwyl Canol Dre**
Bu criw o ddisgyblion yr ysgol yn diddanu cynulleidfa Gwyl Canol Dre 2024.

**Taith yr Adran Gerdd i weld Wicked yn Llundain**
Yn ôl yr arferiad blynyddol, ar y 12fed o Orffennaf eleni, teithiodd tua 150 o ddisgyblion yr ysgol i Lundain i wylio cynhyrchiad y West End o'r sioe gerdd Wicked.

**Heatherton**
Aeth holl ddisgyblion blwyddyn 7 a rhai o ddisgyblion blwyddyn 8 a staff ar daith ddiwedd tymor i Heatherton. Cafwyd diwrnod arbennig iawn yno.

**Taith Paris**
Teithiodd y mwyafrif o ddisgyblion blwyddyn 8 ac athrawon yr ysgol am dridiau i Baris yn y tywydd twym ar ddiwedd tymor yr Haf. Cawsant brofiad arbennig iawn. Diolch i bawb a wnaeth drefnu.

**Wythnos Fiolegol**
Yn ystod Wythnos Fioleg eleni, bu nifer o ddigwyddiadau yn yr ysgol gyda siaradwyr gwadd yn annerch disgyblion ynghyd a chystadleuaeth Bake-Off Biolegol – gwelwyd nifer o eitemau ar ffurf sbesimen biolegol. Diolch i bawb am ymdrechu i gystadlu a llongyfarchiadau. Diolch arbennig i Kevin Stephens, Agroceutical am gyflwyniad ar yr ymchwil sy'n cael ei wneud i ddefnyddio galantamin o Gennin Pedr i dri y cyflwr Alzheimer's. Bu disgyblion bl.12 Gwyddor Feddygol yn brysur yn croesawu ymwelwyr fel rhan o'u cwrs. Diolch i Lynne a Fiona o Fwrdd Iechyd Hywel Dda, arbenigwyr ym maes iechyd a meddyginiaethau am fynychu cyflwyniadau a braf oedd croesawu cyn-ddisgybl, Dr Mererid Price i gynorthwyo'r disgyblion wrth baratoi ar gyfer eu gwaith cwrs.

**Gweithdy Cerdd**
Bu'r disgyblion sy'n astudio Cerdd TGAU a Lefel A yn rhan o Weithdy Cyfansoddwr Ifanc Dyfed yn Neuadd y Gwendraeth.

**Newyddion trist**
Taenwyd cwlwm tywyll dros gymuned yr ysgol ddechrau mis Hydref wrth i ni glywed am farwolaeth cyn amserol aelod poblogaidd o staff yr ysgol, ein rheolwr rhwydwaith Mr Robert Gibbard. Ar ôl brwydr fer ond dewr yn erbyn canser, gadawodd marwolaeth Robert wagle dwfn yn ein calonnau yn dilyn 28 mlynedd o wasanaeth i'r ysgol. Talwyd teyrnged haeddiannol iddo yn yr angladd yng Nghapel Pen-y-graig – gwelwyd cynrychiolaeth gref o gymuned yr ysgol yno, yn rai presennol ac o'r gorffennol a ddaeth i dalu'r deyrnged olaf i gydweithiwr a chyfaill oes i lawer.

**Bore Coffi Macmillan**
Mae Bore Coffi Macmillan yn ddigwyddiad pwysig yng nghalendr yr ysgol ers sawl blwyddyn bellach a doedd llynedd ddim yn eithriad. Ymgasglodd dros 150 o staff a disgyblion y 6ed yn y Stiwdio Ddylunio adeg egwyl i fwynhau paned a chacen wrth gymdeithasu a chodi arian tuag at achos hynod deilwng. Diolch i aelodau Pwyllgor Dyngarol yr ysgol am y gwaith o drefnu digwyddiad llwyddiannus arall eleni. Diolch i'r rhai a gyfrannodd wobrau i'w gwerthu ar ocsiwn. Ar ddiwedd y bore, mae'n braf dweud y llwyddwyd i godi dros £1,200 – anhygoel!

**Diwrnod Helo Melyn**
I gefnogi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar y 10fed o Hydref, braf oedd gweld cynrychiolaeth gref o staff yr ysgol mewn cyfoeth o liw melyn.

**Mentoriaid bl.12**
Eleni eto, mae gan yr ysgol garfan newydd o ddisgyblion bl.12 sydd wedi eu hyfforddi i fod yn fentoriaid i ddisgyblion iau yr ysgol.

**Dathlu 50 Pobol y Cwm**
Braf oedd gweld criw o gôr yr ysgol yn ymuno yn y dathliadau arbennig yn Theatr y Lyric.

**Pwyllgor Eco**
Bu aelodau o Bwyllgor Eco'r ysgol am dro o Fro Myrddin i Bensarn er mwyn casglu sbwriel. Ni chafodd unrhyw ddarn o sbwriel ei anwybyddu a llwyddwyd i glirio cryn dipyn ar hyd y ffordd.

**Saethu Clai**
Llongyfarchiadau i Gethin o fl.12 ar ei lwyddiant diweddar yn saethu clai ar ôl iddo gymhwyso i'r rowndiau sirol. Enillodd yn y tîm iau a daeth yn bencampwr yr adran iau gyda sgôr o 263 sy'n gymwys ar gyfer tîm Cymru. Bydd angen iddo fynychu 3 gêm rhagbrofol arall a chael sgôr o 260 neu fwy er mwyn cymhwyso ar gyfer Tîm Cymru yn y flwyddyn newydd.

**Gwobrau Arloesedd Dylunio a Thechnoleg**
Llongyfarchiadau i Lili a Sophie ar gael eu dewis i arddangos eu gwaith Dylunio a Thechnoleg yng ngwobrau arloesedd CBAC 2024 yng Nghaerdydd. Mae'r gwobrau ar gyfer y prosiectau gorau a mwyaf arloesol yng Nghymru eleni. Lili Haf – UG – drwm cywasgedig. Sophie – TGAU – coes prosthetic i gi.

**Llysgennad**
Llongyfarchiadau i Luke o fl.9 ar gael ei dderbyn fel llysgennad ar gyngor ieuenctid IntoFilm Cymru. Enillodd Luke 'Seren Y Celfyddydau' yn yr haf ar gyfer ei ffilm fer ar 'Cynhesu Byd Eang' hefyd.

**Llwyddiant cerddorol.**
Llongyfarchiadau hefyd i'r bechgyn canlynol Gruffydd, Tomos a Gwilym sydd wedi rhyddhau'r gân Dyddie Gorau, gyda'r band Iwtopia ac yn arbennig i Gruffydd sydd wedi cyfansoddi'r gerddoriaeth ac ysgrifennu'r geiriau i'r gân! Llongyfarchiadau hefyd i'r grŵp Penne Orenne sydd hefyd wedi rhyddhau fideo.

**Gwobr John Muir**
Llongyfarchiadau i aelodau'r Clwb Garddio ar ennill gwobr am eu gwaith.

**Eisteddfod ffermwyr ifanc**
Braf oedd cael croesawu Eisteddfod Sir y Ffermwyr Ifanc i neuadd yr ysgol am y tro cyntaf eleni. Braf hefyd oedd cael croesawu Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru i'r ysgol dros hanner tymor. Roedd yr ysgol yn edrych yn arbennig iawn ar y teledu a gweddnewidiwyd y neuadd, y ffreutur, y llyfrgell a'r safle allanol. Cafwyd eisteddfod lwyddiannus iawn a rhoddwyd cryn dipyn o sylw ar y cyfryngau i'r digwyddiad. Llongyfarchiadau i lu o ddisgyblion yr ysgol a fu'n rhan o'r cystadlu.

**Gemau rhwng mis Medi a hanner tymor**
Ers mis Medi chwaraewyd 7 gêm bêl-droed – enillwyd 3 a chollwyd 4
Chwaraewyd 13 gêm rygbi – enillwyd 11 a chollwyd 2
Chwaraewyd 28 gêm bêl-rwyd – enillwyd 13, collwyd 13 a chafwyd 2 gêm gyfartal
Chwaraewyd 10 gêm hoci – enillwyd 8 a chollwyd 2

**Adroddiad tymor y Gwanwyn 2025**
**Banc Bwyd Caerfyrddin**
Braf oedd gallu casglu nwyddau tuag at Fanc Bwyd Caerfyrddin ar gyfer cyfnod Diolchgarwch. Diolch i'r Parchedig Beti-Wyn James am baratoi gwasanaeth. Diolch i bawb am eu cyfraniadau tuag at achos hanfodol yn y gymuned.

**Penaethiaid Llys**

Yn dilyn pleidlais, braf yw gallu cyhoeddi enwau'r unigolion fydd yn arwain y llysoedd yn ystod 2024-2025 a llongyfarchiadau i'r criw; Hengwrt – Penaethiaid – Celyn Richards ac Ilan Dafydd, Is-benaethiaid – Sara Davies a Max Fflint; Hergest – Penaethiaid – Meg Lewis a Harry Thomas, Is-benaethiaid – Nerys Howells a Ellis Davies. Llwydiarth - Penaethiaid – Betsan Jones a Thomas Parry, Is-benaethiaid – Cate Davies a Tomos Axford. Peniarth – Penaethiaid – Luned Davies a Josh Cramb, Is-benaethiaid – Gwenan Morris a Tomos Charles.

**Taith America**

Dros wyliau hanner tymor yr Hydref, teithiodd criw o ddisgyblion bl.13 a staff i Unol Daleithiau'r America. Dyma brofiad gwych iddynt a chyfle i weld a phrofi holl atyniadau pwysig. Diolch i'r staff am drefnu a rhoi o'u hamser i fynd gyda'r disgyblion.

**Taith Sgïo**

Bu criw o ddisgyblion a staff yr ysgol ar daith sgïo i Awstria dros wyliau'r Nadolig.

**Cyngerdd Nadolig**

Ar drothwy'r Nadolig ac ar noson gyda'r hin yn ddigon diflas, braint oedd estyn croeso i rieni a chyfeillion yr ysgol i glydwch adeilad hardd a sanctaidd Capel Heol Awst ar gyfer ein cyngerdd Nadolig nos Fawrth 17eg o Ragfyr. Gyda chorau'r Capel mawreddog hwn yn gyfforddus lawn fe'n galwyd i addoli drwy air o groeso gan Dr Llinos Jones. Fe'n tywyswyd ar hyd amrywiol gyfryngau cerddorol yn gysylltiedig â'r Nadolig a thrwy gyfuniad o berfformiadau llafar, datganiadau cerddorol hen a newydd a charolau traddodiadol, gosodwyd sylfaen a naws fendithiol yr Wŷl i bawb oedd yn bresennol. Cyn i'r gynulleidfa uno i ganu'r garol Clywch Lu'r Nef yn Seinio'n Un, braf oedd gwrando ar ddatganiad y Côr Cymysg Hŷn o Mair a Wyddet Ti gan Mark Lowry. Offrymwyd y Fendith gan y Parchedig Beti Wyn James. Casglwyd tuag at Fanc Bwyd Caerfyrddin a diolch i bawb am eu cyfraniadau hael. Diolch i'r rhai fu'n hyfforddi a chynorthwyo ar y noson, i'r Parchedig Beti Wyn James a swyddogion Capel Heol Awst am estyn croeso i ni gynnal ein gwasanaeth, i Mr Meirion Wynn Jones am ei wasanaeth wrth yr organ, i Mrs Kim Lloyd-Jones am ei chymorth ar y delyn, i athrawon teithiol Gwasanaeth Cerdd Sir Gâr ac i athrawon yr ysgol am eu gwaith wrth hyfforddi'r disgyblion.

**Gwasanaeth Nadolig**

Ar fore dydd Iau y 19eg o Ragfyr a hithau bron yn ddiwedd y tymor, braf oedd gweld holl ddisgyblion a staff yr ysgol wedi ymgynnull yn neuadd yr ysgol ar gyfer y gwasanaeth Nadolig. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan brif ddisgyblion yr ysgol a diolch iddynt am gyflwyno'r eitemau mewn modd urddasol. Clywyd darnau o gerddoriaeth amrywiol gan gorau'r ysgol dan arweiniad Mr Berian Lewis a Miss Nia Evans. Diolch i'r rhai fu'n cydlynu'r cyfan ac am roi diweddglo pwrpasol i'r tymor. Yn ystod y gwasanaeth cafodd Dr Llinos Jones gyfle i ffarwelio â dau aelod o staff yr ysgol sy'n gorffen gyda ni ddiwedd y tymor. Pob lwc i Mr Iestyn Phillips sy'n dechrau swydd newydd yn ysgol QEH ym mis Ionawr ac i Miss Charlotte Doyle sy'n mynd i weithio a theithio yn Awstralia.

**Banc Bwyd Caerfyrddin**

Yn dilyn casgliad clodwiw iawn yn ein Cyngerdd Nadolig nos Fawrth tuag at Fanc Bwyd Caerfyrddin, cyflwynwyd siec o £691.19 iddynt tuag at goffrau'r Banc Bwyd er mwyn darparu bwyd i deuluoedd ar gyfer y Nadolig.

**Côr a Cherddorfa Ieuenctid Cymru**

Llongyfarchiadau i Celyn, Luned ac Erin ar gael eu derbyn i Gôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, i Cerys Angharad ar gael ei derbyn lle yng Ngherddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru ac i Ffion ar gael ei derbyn i Fand Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.

**Ffair Nadolig yr Ysgol**

Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus yn neuadd yr ysgol ar nos Iau 5ed o Ragfyr gyda'r stondinau amrywiol yn llawn nwyddau a phawb yn brysur yn bachu bargeinion cyn y Nadolig. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Eisteddfod Ddwl**

Bu disgyblion bl.7 yn rhan o Eisteddfod Ddwl wedi ei threfnu gan ddisgyblion bl.12 cyn diwedd y tymor. Ar ôl bore o gystadlu, llys Llwydiarth oedd yn fuddugol.

**Taith Dylunio a Thechnoleg**

Bu criw o ddisgyblion y 6ed sy’n astudio Dylunio a Thechnoleg fel pwnc ar daith i Lundain i weld adeiladau ac atyniadau trawiadol y ddinas.

**Taith STEM**
Diolch i Brifysgol Abertawe ac "fmspw" am drefnu cyfres o ddarlithoedd amrywiol mewn Cemeg, Ffiseg, Bioleg, Mathemateg a Pheirianneg ar gyfer ein disgyblion bl.12.

**Gweithdai Uwchsgilio**
Profiad arbennig i ddisgyblion y 6ed sy’n astudio’r Gwyddorau oedd cael bod yn rhan o weithdai datblygu sgiliau ymarferol gyda Phrifysgol Abertawe yn yr Ardd Fotaneg.

**Taith i’r Synagog a’r Gwrdwara**
Bu bl.7 a disgyblion bl.10 Addysg Grefyddol ar ymweliad i’r Synagog a’r Gwrdwara yng Nghaerdydd.

**Cerddoriaeth**
Bu disgyblion yr Adran Gerdd yn brysur yn ystod y tymor wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Bu’r Band Chwyth yn diddanu yn Morrisons a bu criw o ddisgyblion yn rhan o berfformiadau gyda’r Sir yn Theatr y Ffwrnes. Bu Enlli a Ffion ym Mhlas Rhosygilwen yn perfformio mewn Dosbarthiadau Meistr ar gyfer Cerddor Ifanc Dyfed. Profiad arbennig.

**Eisteddfod Offerynnol**
Yn dilyn diwrnod prysur o gystadlu yn Neuadd y Gwendraeth – dyma ganlyniadau’r diwrnod a llongyfarchiadau i’r holl gystadleuwyr; Unawd Llinynnol bl.7-9 – Elena Jones (2il); Unawd Pres bl.7-9 – Tomos Hill (2il); Unawd Piano bl.10 a dan 19 – Enlli James (1af); Ensemble Offerynnol bl.10 a dan 19 – Bro Myrddin (1af); Ensemble Offerynnol bl.7-9 – Bro Myrddin (1af).

**Siarad Cyhoeddus Y Rotari**
Llongyfarchiadau i’r tîm Siarad cyhoeddus ar ennill cystadleuaeth y Gorllewin y Rotari. Ar ddiwedd prynhawn o gystadlu, dyma’r canlyniadau; Y Tîm gorau; Cynigydd gorau – Celyn Richards; Cadeirydd gorau – Gwenan Morris. Aeth y merched ymlaen i gystadlu yn y rownd derfynol a llongyfarchiadau gwresog iddynt ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth.

**Cystadleuaeth Seren**
Llongyfarchiadau i griw o ddisgyblion blwyddyn 9 a fu’n cystadlu mewn cystadleuaeth siarad cyhoeddus gyda Seren yn yr Egin – daeth y tîm Cymraeg yn ail a’r tîm Saesneg yn drydydd.

**Gyrfau Blasus**
Llongyfarchiadau i’r criw buddugol o ddosbarth 9-5 ar ddod i’r brig yng nghystadleuaeth Gyrfau gyda’u syniad o Gacen Gaws Gymreig. Yn dilyn hyn, aeth criw ‘Mynydd Melys’ yn ymlaen i gynrychioli’r ysgol yn rownd derfynol y gystadleuaeth ym Mharc y Sgarlets. Llongyfarchiadau iddynt am ddod yn ail yn y rownd derfynol.

**Siaradwr gwadd**
Diolch i Aled Williams sydd wedi bod yn gweithio ym Mhencadlys Apple yn Unol Daleithiau’r America am siarad gyda 6ed YGGBM. "Peidiwch a gwneud DIM – gwnewch rhywbeth" – cyngor da!

**Diwrnod Cipolwg**
Bu disgyblion y 6ed sy’n astudio Gwleidyddiaeth ar daith i Neuadd y Sir ar gyfer Diwrnod Cipolwg Sir Gâr 2025.

**Gwobr Platinwm Eco-Sgolion**
Llongyfarchiadau i’r ysgol am ennill y faner blatinwm am ein gweithgareddau ac addasiadau eco-cyfeillgar. Roedd yn fraint fawr i groesawu Bethan Evans-Phillips o Cadwch Gymru’n Daclus a chyflwyno iddi y nifer o ffyrdd y mae ein hysgol yn cefnogi cynaliadwyedd ac yn gweithio tuag at fod hyd yn oed yn fwy eco-gyfeillgar. Mae ymdrechion y staff a’r disgyblion ar draws yr ysgol yn ganmoladwy, a hir y parhaent i ddangos eu hymrwymiad di-ildio i’r achos.

**Diwrnod y Cadoediad**

I goffau'r rhai a gollwyd yn ystod y Rhyfeloedd Mawr, cafwyd gwasanaeth arbennig yn yr ysgol ar fore'r 11eg o Dachwedd. Cyflwynodd Mr Steffan Davies wasanaeth a diolch i Miss Elin Jones am baratoi'r cyflwyniad. Fe'n harweiniwyd at ddwy funud o dawelwch gan sain ingol y Last Post a chwaraewyd gan Ffion o fl.13.

**Eisteddfodau CFfI Sir Gâr a Chymru**

Llongyfarchiadau i ddisgyblion a chyn-ddisgyblion yr ysgol ar eu llwyddiant yn Eisteddfodau diweddar Clybiau Ffermwyr Ifanc a braf oedd gallu croesawu'r digwyddiad arbennig hwn i Fro Myrddin eleni.

**Ffug-gyfweliadau bl.11**

Bu disgyblion bl.11 yn rhan o ffug-gyfweliadau er mwyn eu paratoi at fywyd y tu hwnt i furiau'r ysgol. Diolch i gynrychiolwyr o Brifysgol Y Drindod Dewi Sant, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Iechyd, Theatr Genedlaethol, Menter Gorllewin Sir Gâr a Chwmni Bouygues-uk am roi o'u hamser i ddod atom er budd datblygu sgiliau'r disgyblion a mireinio'r hyn sydd angen arnynt ar gyfer y dyfodol.

**Clwb Garddio**

Mae aelodau'r clwb yn cwrdd yn wythnosol ac yn brysur iawn yn cynnal a chadw'r ardd drwy gydol y flwyddyn. Yn ddiweddar maent wedi bod yn plannu bylbiau Cennin Pedr ar gyfer y gwanwyn a chlirio dail o gwmpas llwybrau'r ysgol. Am fwy o hanes ac i weld y gwaith cofiwch ddilyn y clwb ar y gwefannau cymdeithasol!

**Diwrnod Plant Mewn Angen**

Gwisgo fel arwyr oedd thema'r diwrnod yn yr ysgol eleni a braf oedd gweld ymdrech arwrol aelodau niferus o staff yr ysgol wrth iddynt droedio coridorau'r ysgol yn eu gwisgoedd amrywiol. Diolch i bawb am eu cyfraniadau gyda chyfanswm teilwng o dros £1,100 wedi ei godi tuag at elusennau Plant Mewn Angen yn lleol.

**Gwobrau Chwaraeon Tref Caerfyrddin**

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill gwobrau arbennig yn noson wobrwyo Tref Caerfyrddin – Gwion Williams a Nia Seren yn ennill eu categoriau a Manon Phillips, Tomos Cai Davies ac Ifan Bowen am ddod yn ail yn eu categoriau hwythau.

**Athletau**

Llongyfarchiadau i Manon ar ennill Pencampwriaeth Iau dan do Cymru, dan 13 ac o dan 15 ac i Beca ar ddod yn 3ydd yn rownd derfynol y 300m wrth osod amser personol newydd. Llongyfarchiadau i Cerys a deithiodd i Sheffield i gystadlu yn y 1000m cerdded fel rhan o Bencampwriaethau digwyddiadau cyfun dan do hŷn a dan 20 Athletau Cymru. Llwyddodd i ddod yn bencampwraig y grŵp merched dan 15 gan osod amser gorau newydd.

**Scarlets**

Llongyfarchiadau i Tomos o fl.13 ar gael ei ddewis i gynrychioli tîm dan 18 y Scarlets yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i griw o fechgyn bl.11 ar gael eu dewis i gynrychioli tîm Dwyrain y Scarlets dan 16 sef, Harri, Ben, Gwion, Gruff, Macsen a Cai.

**Pêl-rwyd Gorllewin Cymru**

Llongyfarchiadau i Martha, Jess a Cerys o flwyddyn 11, Cate o flwyddyn 12 ac Emilie, Mia a Cristyn o flwyddyn 9 ar gael eu dewis i fod yn aelodau o dîm pêl-rwyd Gorllewin Cymru.

**Trawsgwlad**

Cafwyd tipyn o lwyddiant ym Mhencampwriaethau Trawsgwlad Brianne gyda 10 o ddisgyblion yn cynrychioli'r ysgol. Llwyddodd 8 ohonynt sef Bethan, Cai, Jac, Beca, Jimmy, Sion, Macy ac Anna i fynd ymlaen i'r ras genedlaethol yn Aberhonddu.

**Pêl-rwyd**

Llongyfarchiadau i ferched pêl-rwyd Ann Smart (bl.10/11) a enillodd rownd Gorllewin Cymru yn erbyn Hwlffordd, Strade a Bro Teifi. Gemau cyffrous iawn gyda'r merched lawr 4-3 ar hanner amser yn erbyn Hwlffordd ac i lawr 7-3 ar hanner amser yn erbyn Strade. Roedd Strade a Bro Myrddin yn gyfartal 10-10 yn eu gêm ac o ganlyniad roedd y ddwy Ysgol ar 13 pwynt yr un ac felly'n gorfod edrych ar y goliau a sgoriwyd ac a roddwyd. Bro Myrddin 44/16 a Strade 45/17, felly 2.75 a 2.65. Perfformiadau arbennig. Pob lwc i'r tîm yn rownd Cymru!

**Llwyddiant y Tîm Rygbi Hŷn**
Roedd yna gyffro mawr ar hyd coridorau'r ysgol ar ddydd Mawrth 10fed o Ragfyr wrth i ddisgyblion ac athrawon yr ysgol ddymuno'n dda i aelodau'r tîm rygbi hŷn wrth iddynt baratoi ar gyfer y daith i Stadiwm y Principality ar gyfer rownd derfynol Cystadleuaeth Pencampwr y Pencampwyr. Teithiodd 3 llond bws o gefnogwyr brwd i gefnogi'r bechgyn. Mae'r bechgyn wedi cael cryn lwyddiant yn ddiweddar ac yn dilyn ennill gêm derfynol y Gorllewin o 19-15 yn erbyn Hwlffordd, roedd tipyn o gynnwrf yn yr ysgol wrth feddwl am y rownd derfynol o'r Gorllewin yn erbyn y Dwyrain. Yn dilyn gêm gyffrous, llongyfarchiadau i'r tîm ar ennill 35-34 yn erbyn ysgol Cwm Rhymni. Cafodd y tîm rygbi hŷn dymor llwyddiannus dros ben ac mewn chwech cystadleuaeth yn y tri tymor diwethaf, enillwyd pum tlws. Dyma grynodeb o'u llwyddiant; Pencampwyr Cwpan y Scarlets bl.11 2022/2023; Enillwyr Cynghrair Pencampwriaeth Dan 18 Gorllewin Cymru 2023/2024; Pencampwyr Plât WRSU yn Stadiwm y Principality 2023/2024; Enillwyr Uwch Gynghrair Dan 18 Gorllewin Cymru 2024/2025

**Cynrychioli Prydain**
Llongyfarchiadau i Gwion o fl.13 ar gael ei dderbyn i'r World Class Programme Canoe Slalom a Kayak Cross i gynrychioli Prydain. Cynhelir yr hyfforddiant cyntaf yn y flwyddyn newydd yn y Pyrenees. Llongyfarchiadau hefyd iddo am ennill y categori ieuenctid yng ngwobrau chwaraeon Sir Gâr.

**Sboncen**
Llongyfarchiadau i Nia Seren a deithiodd i Zurich yn ddiweddar i gystadlu ym Mhencampwriaeth Agored Iau y Swistir. Yn dilyn teitl Agored Iwerddon ddechrau mis Tachwedd, Nia yw Pencampwr Agored y Swistir. Mae Nia wedi ennill dau deitl Ewropeaidd mewn mis.

**Tîm Ysgolion Sir Gâr**
Bu criw o ddisgyblion Bro Myrddin yn cynrychioli tîm districts y Sir yn erbyn Cwm Cynon.

**Karate Cymru**
Llongyfarchiadau i Ruben ar ennill medal efydd ym Mhencampwriaethau Karate Cymru ac enillodd Ruben ac Ethan y fedal aur yng nghystadleuaeth y tîm. Bu hefyd yn cystadlu yn y Pencampwriaeth Ewropeaidd yng Nghaeredin. Mae wedi derbyn gwahoddiad i Sgwad Cymru blwyddyn nesaf yng Ngwlad Belg.

**Gemau a chwaraewyd**
Rygbi – Enillwyd 13 a chollwyd 7.
Pêl-droed – Enillwyd 12, collwyd 1 a chafwyd 4 gêm gyfartal.
Pêl-rwyd– Enillwyd 9, collwyd 9 a chafwyd 1 gêm gyfartal.
Hoci – Enillwyd 22, collwyd 11 a chafwyd 7 gêm gyfartal.

**Adroddiad tymor yr Haf 2025**
**Eisteddfod Ysgol 2025**
Ar ôl tair wythnos o ymarferion, gwawriodd diwrnod yr Eisteddfod ysgol ar ddydd Gwener 21ain o Chwefror. Traddodwyd y beirniadaethau gan Dr Llinos Jones a Mrs Siwan Rees a diolch i'r ddwy am eu gwaith eleni eto. Braf oedd gallu datgan fod yna deilyngdod ac yn dilyn cystadleuaeth agos iawn, dyma gyhoeddi enwau'r buddugwyr;
Y Goron Gymraeg – Miriam Williams, Llys Llwydiarth
Y Gadair Saesneg – Zach Davis, Llys Llwydiarth Y Goron Saesneg – Gwenno Davies, Llys Peniarth
Y Gadair Gymraeg – Celyn Richards, Llys Hengwrt
Yn dilyn diwrnod yn llawn cystadlu brwd ar y llwyfan, dyma gyhoeddi enillwyr y prif dariannau;
Tarian Gwaith Cartref – Llys Hergest
Tarian Cystadlaethau Llwyfan – Llys Peniarth
Tarian Dawnsio Gwerin – Llys Hergest
Cwpan y Côr – Llys Llwydiarth
Llys Buddugol y diwrnod a enillodd darian yr Eisteddfod oedd Peniarth gyda Hergest yn 2il agos iawn iddynt o fewn 3 phwynt yn unig, Llwydiarth yn 3ydd a Hengwrt yn 4ydd.
Diolch i bawb fu'n rhan o'r gwaith trefnu a pharatoi ac am gyfrannu at lwyddiant y diwrnod ac i Dai Baker am ddod atom i feirniadu'r cystadlaethau.

**Cystadleuaeth Fformiwla 1**

Bu dau dîm o’r ysgol yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth Fformiwla 1 yng Nghaerdydd – profiad gwych i’r disgyblion. Llongyfarchiadau i’r tîm bechgyn am gael dau ail le ac ennill y wobr am y tîm gyda’r brand gorau.

**Llwyddiant pêl-droed**
Llongyfarchiadau i Ifan Harding ar ei lwyddiant pêl-droed diweddar. Sgoriodd gôl yng ngêm Rhanbarthol Cymru yn y Drenewydd a dwy gôl yn nhreialon Ysgolion Cymru yn y Drenewydd.

**Pared Gŵyl Ddewi**
Prif swyddogion Bro Myrddin oedd yn arwain pared Gwyl Ddewi tref Caerfyrddin eleni.

**Taith Lesotho**
Bu’r hanner tymor yn gyfnod cyffrous iawn i Miss Nia Williams wrth deithio i Lesotho. Thema’r daith eleni oedd ‘Iechyd a Lles’ ac wrth ymweld gydag ysgolion uwchradd a chynradd Thaba – Tseka, gan gynnwys Ysgol Uwchradd Ntaote, Ysgol Uwchradd Thaba-Tskea, Ysgol Gynradd Thaba – Tseka ac Ysgol Gynradd Katlehong, cafwyd cyfle i gydweithio fel athrawon ar draws yr ysgolion i ddarparu gwersi Lles i gannoedd o ddisgyblion Thaba – Tseka. Bwriad yr ymweliad yma oedd cydweithio a rhannu syniadau er mwyn hwyluso a datblygu’r elfen hon yn yr ysgolion ond wrth gwrs, cawsom gyfle hefyd i ddathlu’n diwylliannau unigryw wrth ddawnsio, canu a dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cafwyd croeso twymgalon gan y disgyblion a’r staff yn Thaba – Tseka ac edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu athro a disgyblion o Ysgol Ntaote yn ôl i Gymru ac i Fro Myrddin ar ddiwedd mis Mehefin eleni.

**Murluniau Orielodl**
Cafodd carfan o ddisgyblion yr ysgol gyfle i gydweithio gyda’r artist Rhys Padarn o gwmni Orielodl i greu casgliad o furluniau i’r ysgol. Caiff y murluniau eu harddangos o amgylch yr ysgol i ddynodi meysydd pwysig i’r disgyblion.

**Her gyrfau blasus 2025**
Ar gyfer rownd derfynol Her Gyrfau Blasus, daeth timau o 11 o ysgolion de-orllewin Cymru ynghyd ym Marc y Scarlets. Yn dilyn cyflwyniad graenus, ymatebodd y tîm yn hyderus i gwestiynau’r beirniaid gan dderbyn canmoliaeth am ei brandio cryf a’i defnydd o gynnyrch lleol. Mewn cystadleuaeth frwd, daeth tîm Bro Myrddin yn 2il gyda’i pwdin arloesol, ‘Mynydd Melys’. Llongyfarchiadau mawr i Beca, Miriam, Dewi, Rowan, Efa ac Elen o 9-5.

**Gweithdy Rhwydwaith Seren**
Diolch i Rwydwaith Seren am roi’r cyfle i grŵp o ddisgyblion bl.9 i gwblhau Gweithdy ‘Confident Communicators’ gyda Richard Hull. Cafwyd diwrnod llwyddiannus yn llawn bwrlwm a sbri wrth ddatblygu sgiliau cyfathrebu llafar y disgyblion.

**Cystadleuaeth pêl-rwyd Ann Smart**
Eleni cyrhaeddodd tîm pêl-rwyd bl.11 dwrnament cenedlaethol Ann Smart. Ar ddydd Mawrth yr 11eg o Fawrth cyflwynwyd gair o anogaeth gan Mr Steffan Davies wrth gyflwyno cit newydd i’r garfan. Cynhaliwyd y twrnament yn Hwlffordd ar y 15fed o Fawrth ac ar ôl diwrnod o chwarae gemau cyrhaeddodd y merched 4ydd yn eu grŵp ar sail pwyntiau ond colli yn y chwarteri. Llongyfarchiadau ferched.

**Taith Gwyddor Feddygol**
Bu disgyblion bl.13 Gwyddor Feddygol yn ymweld â Labordai Patholeg Ysbyty Glangwili.

**Taith Prentisiaethau**
Ar ddydd Mawrth 18fed o Chwefror teithiodd 41 o ddisgyblion sy’n astudio adeiladwaith, peirianneg a pheirianneg ceir i Stadiwm Dinas Caerdydd i fynychu digwyddiad prentisiaethau cenedlaethol. Cafodd y disgyblion gyfle i rhyngweithio a thrafod gyda nifer o fusnesau a chwmnïoedd amrywiol gan drafod posibiliadau gyrfa’r dyfodol. Diwrnod gwerthfawr ac hwylus iawn.

**Iwtopia**
Bu’r band Iwtopia yn cystadlu yn Noson Gwobr Goffa Richard a Wyn Jones, Ail Symudiad a Chwmni Fflach yn Sir Benfro.

**Noson Wobrwyo 2025**

Digwyddiad blynyddol yng nghalendr yr Ysgol ers blynyddoedd lawer erbyn hyn yw'r Noson Wobrwyo; dyma gyfle i ni groesawu cyn-ddisgyblion a'u teuluoedd yn ôl i'r Ysgol wrth i ni ddod at ein gilydd yn neuadd yr Ysgol ar ddiwedd Tymor y Gwanwyn a hynny er mwyn cydnabod llwyddiant academaidd ac allgyrsiol ein myfyrwyr. Braf oedd gallu croesawu disgyblion, cyn-ddisgyblion, teuluoedd a staff yr ysgol at ei gilydd ar nos Fercher 9fed o Ebrill. Siaradwr gwadd y noson oedd yr actor Steffan Cennydd, ac yntau'n gyn-ddisgybl, braf oedd estyn croeso iddo yn ôl i Fro Myrddin. Diolch iddo am ei eiriau pwrpasol ac am ysbrydoli'r garfan o ddisgyblion sy'n wynebu arholiadau a phenderfyniadau ynghylch eu dyfodol ac am ddangos iddynt bod pethau'n digwydd am reswm ac y daw llwyddiant yn y pendraw.

Diolch i Siwan Matthews a Harri Gibbon, Prif Swyddogion yr ysgol a Dr Llinos Jones am lywio'r noson o'r llwyfan gyda'u geiriau pwrpasol ac i ferched hŷn yr ysgol am eu perfformiadau cerddorol. Enillwyr y gwobrau am eleni oedd:

- Gwobr ariannol Bro Myrddin am lwyddiant academaidd yn yr arholiadau Safon Uwch – Iwan Bryer.
- Gwobr ariannol Beti Hughes am lwyddiant academaidd yn Safon Uwch a chyfraniad i fywyd diwylliannol yr Ysgol – Gwenllian Jones a Steffan Huw Davies.
- Tlws Gareth Evans am gyfraniad i fywyd diwylliannol yr ysgol – Gwenllian Llwyd Jones.
- Tlws Gareth Evans am ymdrech gyson ym mlwyddyn 11 neu 13 – Megan Thomas.
- Gwobr St Peter's Players am gyfraniad i weithgareddau drama – Siwan Jones.
- Tlws Megan a Myfanwy am waith creadigol o safon uchel – Celyn Williams.
- Tlws Rhian Denby Jones am yr ymdrech orau yn TGAU Hanes – Ffion Ennis.
- Tlws Yr Adran Fusnes – Elin Harries.
- Tlws Hugh Griffiths am yr ymdrech orau yn TGAU Gwyddoniaeth – Megan Thomas a Sophie Evans.
- Gwobr Ieithoedd Tramor Modern am y perfformiad gorau mewn Ieithoedd Tramor Modern ym mlwyddyn 11 neu 13 – Felicity James
- Gwobr Disgybl y Disgyblion i'r disgybl greodd yr argraff fwyaf ar ei gyd-ddisgyblion – Luned Defis.
- Gwobr Capel Y Priordy am ymdrech arbennig mewn Addysg Grefyddol – Isabelle Phillips.
- Gwobr Cymreictod Grav – Siwan Jones.
- Tlws Andrew Rees i gerddor neu gerddorion gorau'r ysgol – Bryn Richards.
- Tlws yr Adran Gerdd am y perfformiad gorau yn TGAU Cerddoriaeth – Celyn Richards.
- Tlws Margaret Morris am y perfformiad gorau yn Addysg Gorfforol ym ml.13 – Megan Roberts.
- Tlws yr Adran Addysg Gorfforol am y perfformiad gorau yn TGAU Addysg Gorfforol – Ffion Norgrove.
- Tlws Elin Ruth Jenkins am y perfformiad gorau mewn pêl-rwyd – Sophia Reid-Thomas.
- Tlws Non Jenkins am y perfformiad gorau mewn nofio – Millie Patterson.
- Tlws Peter Hughes Griffiths am ei wasanaeth i bêl-droed o fewn yr Ysgol – Gwenllian Llwyd Jones.
- Tlws Emlyn Schiavone am wasanaeth i rygbi o fewn yr ysgol – Osian Jones a Steffan Jones.
- Tlws Rheon ac Elliw James am gyfraniad i Athletau yn yr ysgol – Ifan Bowen.

Llongyfarchiadau i bawb. Ymfalchïwn yn llwyddiant ein disgyblion a dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.

**Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd**

Yn dilyn diwrnod llwyddiannus a phrysur o gystadlu yn Neuadd Pontyberem, dyma ganlyniadau'r diwrnod.
Llefaru unigol bl.7, 8 a 9 = 1af – Gwilym
Grŵp llefaru bl.7, 8 a 9 – 2il
Grŵp llefaru bl.10 a dan 19 oed – 1af
Llefaru unigol bl.10 a dan 19 oed = 3ydd – Alaw
Perfformiad theatrig unigol bl.7, 8 a 9 = 1af – Gwen
Perfformio golygfa bl.7, 8 a 9 = 2il
Perfformio golygfa bl.10 a dan 19 oed = 1af
Monolog bl.10 a dan 19 oed = 1af – Alaw
Unawd merched bl.7, 8 a 9 = 1af – Miriam
Deuawd bl.7, 8 a 9 = 2il – Miriam a Beca
Deuawd bl.10 a dan 19 oed = 2il – Luned a Celyn
Unawd S.A. bl.10 a dan 19 oed = 1af – Celyn
Perfformiad o gân sioe gerdd bl.10 a dan 19 oed = 2il – Celyn
Cyflwyno Alaw werin unigol bl.7, 8 a 9 = 2il – Miriam
Cyflwyno Alaw werin bl.10 a dan 19 oed = 1af – Celyn
Parti Merched bl.7, 8 a 9 – 1af

Parti Bechgyn bl.7, 8 a 9 – 2il
Côr S.A. bl.7, 8 a 9 – 1af
Côr S.A. bl.10 a dan 19 oed – 1af
Côr S.A.T.B. bl.13 ac iau – 1af
Ensemble lleisiol bl.10 a dan 19 oed – 1af / 2il
Côr gwerin tri llais bl.13 ac iau – 1af
Unawd telyn bl.10 a dan 19 oed – 1af
Unawd cerdd dant bl.7, 8 a 9 = 1af – Miriam / 2il – Beca
Deuawd cerdd dant bl.7, 8 a 9 = 1af – Miriam a Beca
Unawd cerdd dant bl.10 a dan 19 oed = 1af – Celyn
Deuawd neu driawd cerdd dant bl.10 a dan 19 oed = 1af
Grŵp cerdd dant bl.10 a dan 19 oed = 1af
Parti cerdd dant bl.7, 8 a 9 = 1af
Côr cerdd dant bl.13 ac iau = 1af
Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.7, 8 – Elen Lisle – 1 af
Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.10 – Mabli Callaghan Edwards – 2il
Cynnwys Digidol – Oedran Bl.7 – Luke Taylor – 2il
Creu Ffilm - Oedran Bl. 7, 8 a 9 – Luke Taylor – 1af
Cyfansoddi Sgript Wreiddiol – Mabli Callaghan Edwards – 2il
Pob hwyl i bawb o'r uchod yn ogystal â'r tîm siarad cyhoeddus ac i fand yr ysgol yn yr Eisteddfod ym Margam.

**Cyngerdd Pigion yr Urdd**
Braf oedd gallu cynnal noson i arddangos blas o'r eitemau sy'n cynrychioli'r ysgol ar lwyfan Eisteddfod Margam eleni ar nos Iau y 1af o Fai. Gwelwyd detholiad o'r 30 o eitemau fydd yn teithio i Barc Margam i gystadlu. Diolch i'r hyfforddwyr am roi o'u hamser i baratoi'r holl ddisgyblion ar gyfer wythnos brysur iawn yn Eisteddfod Dur a Môr.

**Canlyniadau Eisteddfod Dur a Môr**
Dawns Werin mewn Arddull Draddodiadol Merched bl.10 a dan 25 oed – Luned Defis = 3ydd
Siarad Cyhoeddus = 3ydd
Unawd piano bl.10 a dan 19 oed – Enlli James = 1af
Ensemble offerynnol bl.10 a dan 19 oed = 2il
Grŵp cerdd dant bl.10 a dan 19 oed = 2il
Côr cerdd dant bl.13 ac iau = 3ydd
Deuawd neu driawd cerdd dant bl.10 a dan 19 oed = 3ydd
Côr S.A. bl.7, 8 a 9 = 2il
Parti cerdd dant bl.7, 8 a 9 = 3ydd
Perfformiad theatrig unigol bl.7, 8 a 9 – Gwen Richards = 3ydd

**Gwobrau Cerdd**
Llongyfarchiadau i Enlli ar dderbyn gwobr Terry Jones ar gyfer y cyfrannwr gorau, ac i Ffion ar ennill Cerddor Jazz y flwyddyn gyda'r Gwasanaeth Cerdd.

**Gweithdy Cerdd**
Bu'r band Penne Orenne yn rhan o weithdy gyda Mei Gwynedd yn ddiweddar a llongyfarchiadau iddynt ar eu rhan yn y gystadleuaeth Sŵn Sir Gâr.

**Tîm Prydain**
Llongyfarchiadau i Gwion o fl.13 ar ennill lle yn nhîm canŵ slalom a caiac cross Prydain o dan 18. Bydd yn cystadlu ym mhencampwriaeth canŵ slalom ieuenctid y Byd ac Ewrop yn yr haf yn Ffrainc a Slovenia.

**Ffarwelio â disgyblion**
Brynhawn dydd Iau 1af o Fai, daeth cyfnod disgyblion bl.11 i ben wrth iddynt baratoi ar gyfer yr arholiadau TGAU. Yn dilyn seremoni yn y neuadd a chyfle i dynnu lluniau cawsant gyfle i fwynhau diwrnod yn yr awyr agored wrth deithio i Barc Heatherton gyda'u tiwtoriaid dosbarth a Phennaeth Blwyddyn ar yr 2il o Fai. Ar yr 6ed o Fai, cyflwynodd y Prif Swyddogion eu gwasanaeth olaf yn ystod ein gwasanaeth boreol a hynny cyn i gyfnod yr arholiadau ddechrau. Diolch

iddynt am rannu crynodeb o'r atgofion a gasglwyd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Gan ddilyn traddodiad y blynyddoedd a fu, ac o dan wres yr haul, cyrhaeddodd diwrnod ffarwelio â chriw bl.13 eleni ar ddydd Gwener 16eg o Fai, a hynny cyn iddynt gychwyn eu harholiadau Safon Uwch. Cafwyd cyflwyniadau gan Mr Tim Hayes, Mrs Alwen Owen a Dr Llinos Jones a phwysleisiwyd bod pob un o'r criw yma yn rhannu rhywbeth pwysig iawn sef eu bod yn rhan o deulu'r ysgol ac na fyddant yn anghofio hynny wrth iddynt fynd ar eu taith drwy fywyd. Diolchodd y Prif Swyddogion Siwan a Harri i'w cyd-ddisgyblion ac i'r staff sydd wedi bod yn cyd-deithio gyda nhw yn ystod y saith mlynedd diwethaf. Yn yr un modd, cawsant gyfle i wisgo eu hwdis lliwgar fydd yn gofnod o'u cyfnod yn yr ysgol. Dathlwyd nes ymlaen yn y modd traddodiadol wrth wledda ar fochyn wedi'i rostio a danteithion eraill yn y Cwrt Canol. Braf oedd cael y cyfle i dynnu lluniau a llofnodi crysau'r criw hawddgar o bobl ifanc, cyn i'r garfan deithio o furiau'r ysgol mewn cyfoeth o liwiau'r enfys. Pob lwc iddynt yn ystod y cymal nesaf yn eu bywydau, sef cyfnod yr arholiadau!

**Seremoni Medal BEM**
Llongyfarchiadau i Cerys Angharad ar y fraint o gael ei gwahodd dros wyliau'r Pasg i ganu'r delyn yn seremoni cyflwyno medal BEM gan Y Fon. Sara Edwards (Uwch Siryf Dyfed) ac Y Fon. Ann Jones (Dirprwy Uwch Siryf Dyfed) a'r Bon. Keith Evans (Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion).

**Yr Ardd**
Mae aelodau'r Clwb Garddio'n brysur bob nos Fercher ar ôl ysgol yn plannu a chadw'r ardd yn daclus. Diolch i Chris o The John Burns Foundation am ymweld â'r ysgol a chyfrannu planhigion amrywiol.

**Gwobrau RTS Cymru**
Llongyfarchiadau i Amelie yn dilyn ei rhan fel actores mewn ffilm o'r enw Sol. Enwebwyd y ffilm ar gyfer gwobr yng Ngwobrau RTS Cymru Wales 2025 yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd.

**Cap i Gymru**
Llongyfarchiadau i Ifan Harding o fl.9 ar ennill ei gap cyntaf dros Ysgolion Cymru. Bu'r tîm yn fuddugol 4-0 yn erbyn Ysgolion Lloegr.

**Cwpan Scarlets**
Llongyfarchiadau i griw o fechgyn bl.8 fu'n rhan o dîm dan 13 Athletic Caerfyrddin ar ôl ennill Cwpan Scarlets o 47-17 yn erbyn tîm Sir Benfro.

**Tîm rygbi bl.10**
Yn dilyn eu llwyddiant yn ystod y tymor, teithiodd y tîm rygbi bl.10 a 200 o gefnogwyr brwd i Barc Yr Arfau ar y 4ydd o Ebrill ar gyfer rownd derfynol Cwpan Ysgolion Cymru. Cyn i'r tîm ymadael tua'r Brifddinas, cawsant eiriau o anogaeth gan Mr Steffan Davies a Ken Owens wrth iddynt dderbyn eu crysau. Yn dilyn gêm agos iawn, colli o 15-14 oedd hanes y tîm, ond roedd yna edmygedd mawr gan bawb o lwyddiant y bechgyn.

**Cystadleuaeth bêl-droed**
Dros yr wythnosau diwethaf mae disgyblion o flynyddoedd 11-13 wedi cystadlu mewn twrnament pêl-droed yn erbyn ei gilydd. Bl.13 oedd yr enillwyr yn curo tîm bl.11 yn y rownd derfynol. Diolch i'r holl ddisgyblion a wnaeth y twrnament yn llwyddiannus! Enillwyr – Bl.13; Chwaraewr y twrnament – Dylan Bevan (Bl.13); Prif sgorwyr - Gruff Collier (Bl.11), Owen Jones (Bl.12) a Gruffudd Ellis-Jones (Bl.13).

**Llwyddiant Rygbi**
Llongyfarchiadau i Rhys o fl.12 am gynrychioli Tîm rygbi Crawshays Cymru v Independent Wales schools XV yng Ngholeg yr Iesu, Aberhonddu ar nos Fercher. Y Crawshays oedd yn fuddugol 42-19

**Merched bl.7**
Llongyfarchiadau i ferched blwyddyn 7 ar ennill pencampwyr Cenedlaethol y Plât yng nghystadleuaeth yr Urdd.

**Ysgolion Sir Gâr**
Cyrhaeddodd tîm pêl-droed merched dan 15 Ysgolion Sir Gâr y rownd derfynol gyda'r gêm yn erbyn Caerffili yn cael ei chwarae yng Nghroesoswallt ar y 18fed o Fai. Llongyfarchiadau i'r merched sy'n rhan o'r tîm sef Beca ac Ellie. Yn yr

un modd, llwyddodd tîm bechgyn bl.9, sy'n cynnwys rhai o fechgyn yr ysgol sef Jac, Frankie, Ifan ac Osian i gyrraedd rownd derfynol Cwpan Cymru yn erbyn Ysgolion Casnewydd.

**Cystadleuaeth Pêl-droed Genedlaethol yr Urdd Merched Bl.9-10**
Collodd y merched yn rownd gyn-derfynol y cwpan yn erbyn Penweddig ar giciau o'r smotyn. Ymdrech arbennig!
**Pencampwriaethau trawsgwlad Cenedlaethol Ysgolion Cymru.**
Daeth tipyn o lwyddiant i Fro Myrddin ond dyma'r ddau a gyrhaeddodd y brig.
Bechgyn hŷn – Ifan – 1af – Pencampwr Cymru
Bechgyn canol – Sam – 3ydd – podiwm Cymru
Pob lwc i Ifan a Sam ym mhencampwriaethau Trawsgwlad Cenedlaethol Ysgolion Prydeinig 2025.

**Gemau a chwaraewyd**
Rygbi – Enillwyd 8, collwyd 3 a chafwyd 4 gêm gyfartal.
Pêl-droed – Enillwyd 1 a chollwyd 1.
Pêl-rwyd– Enillwyd 12, collwyd 11 a chafwyd 2 gêm gyfartal.
Hoci – Enillwyd 12, collwyd 15 a chafwyd 5 gêm gyfartal.

**Athletau Brianne**
Merched – Bl.7 - 1500m – Gwenno Jones 3ydd, Seren Jennings 4ydd; 800m – Bethan Hampshire 2il
Naid Uchel – Beca Morris 5ed, Milla Evans 6ed; Naid Hir – Bethan Hampshire 8fed; Gwaywffon – Lois Douch 2il; Pwysau – Holly Brazier 1af. Bl.8 – 1500m – Manon Phillips 1af, Cerys Fitzpatrick 7fed; 800m – Mabli King 2il, Hollie Patterson 3ydd; 300m – Megan Evans 1af; 200m – Megan Evans 2il, Alys Morgan 3ydd; 100m – Mabli King 4ydd, Leah Defis 5ed; Naid Driphlyg – Olwen Williams 6ed, Gwen Richards 8fed; Naid Uchel – Lois Rees 3ydd; Naid Hir – Leah Defis 4ydd, Lois Rees 6ed; Disgen – Caitlyn Davies 2il, Elan James 4ydd; Gwaywffon – Lotti Pemberton 5ed, Neli Rees 6ed. Pwysau – Beca Saer 4ydd. Bl.9 – 1500m – Gwenno Powell 2il; 800m – Miriam Williams 3ydd; 300m – Beca Elfyn 1af; 200m – Beca Elfyn 1af, Manon Davies 5ed; 100m – Cristyn Bendle 1af; Naid Driphlyg – Miriam Williams 2il, Alys Lewis 3ydd; Naid Uchel – Gwenno Rees 2il; Naid Hir – Cristyn Bendle 3ydd; Disgen – Seren Bowen 1af, Alys Lewis 4ydd; Gwaywffon - Cristyn Bendle 1af, Non Thomas 5ed; Pwys – Seren Bowen 1af, Celyn Thomas 5ed. Bl.10 – 800m – Anna Jones 2il; 300m – Anna Jones 3ydd; 100m – Ti a Thomas 4ydd; Naid Uchel – Gwenan Jones 2il, Millie Percey 5ed; Naid Hir - Gwenan Jones 4ydd; Disgen – Erin Wilkins-Jones 7fed; Gwaywffon – Erin Wilkins-Jones 3ydd.
Bechgyn – Bl.7 – Pwysau - Harri Morris 7fed; Gwaywffon – Paddy Dunne 3ydd, Tiian Smith 4ydd; Naid hir – Iago Jones 7fed; Naid Uchel – Iw an Thomas 2il; Clwydi - Pddy Dunne 2il; 200m – Steffan Soanes 2il, Owen Davies 6ed; 800m – Steffan Soanes 1af; 1500m – Iwan Morris 2il, Steffan Griffiths 4ydd. Bl.8 – Gwaywffon - Noa Jones 3ydd, Tomos Davies 6ed; Disgen – Cayden Laycock 6ed; Naid hir – Owen Jones 4ydd, Leo Moore 8fed; Naid Driphlyg – Gruff Jones 8fed; Clwydi - Seb Gibbon 1af; 100m – Oliver Horne 2il; 200m – Oliver Horne 1af; 300m – Gwion James 7fed; 800m – Cai Davies 1af, Leo Moore 4ydd; 1500m – Gwion James 5ed. Bl.9 – Pwysau – He nry Davies 3ydd; Gwaywffon – Harri Blue 4ydd, Rhys Jones 5ed; Disgen – Alffi Harley 2il; Naid hir – Fraser Harry 3ydd, Ifan Harding 4ydd; Naid Uchel – Aide n Saer 2il, Fraser Harry 5ed; Naid Driphlyg – Aiden Saer 2il; Clwydi – Fraser Harry 4ydd; 100m – Frankie Richards 1af; 200m – Frankie Richards 1af; 300m – Jac Howells-Arnold 1af; 800m – Osian Thomas 4ydd; 1500m – Jac Howells-Arnold 1af; Bl.10 – Pwysau – Abel Rees 1af, Finley Kelly 2il; Disgen – Finley Kelly 1af, Caleb Morris 3ydd; Naid hir – Rhys James 2il, Jac Johnson 3ydd; Naid Uchel – Jac Morris 6ed, Ioan Jones 7fed; Naid Driphlyg – M acs Morgan 7fed; 200m – Macs Hastings 1af; 800m – Rhun James 7fed

**Athletau NASUWT**
Merched 7 ac 8 – 3ydd
Bechgyn 7 ac 8 – 4ydd
Merched 9 a 10 – 2il = trwyddo i rownd Dyfed
Bechgyn 9 a 10 – 2il = trwyddo i rownd Dyfed